# Gwerthuso graddau heb eu cyhoeddi (mud) ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru

**Practice Solutions Ltd**

**Awduron:**
Martyn Palfreman (arweinydd y prosiect)
Paul Pavia
Hannah Thomas

**Ebrill 2024**

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol ........ 3
2 Cyflwyniad ........ 7
3 Methodoleg ........ 8
4 Cyd-destun ........ 11
Polisi a deddfwriaeth ........ 11
AGC ........ 12
Graddau arolygu ........ 13
Graddau heb eu cyhoeddi ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref: Sut maent yn gweithio ........ 13
Dulliau rheoleiddio eraill ........ 15
Yng Nghymru: ........ 15
Yn Lloegr: ........ 16
Yn yr Alban: ........ 17
Crynodeb ........ 17
5 Themâu allweddol ........ 19
Graddau fel cysyniad ........ 19
Buddiannau canfyddedig ........ 21
Anfanteision posibl ........ 22
Cyfranogiad rhanddeiliaid i ddatblygu'r fframwaith graddau ........ 24
Strwythur y graddau ........ 25
Rhoi'r fframwaith ar waith ........ 28
Effaith arolygiadau gyda graddau hyd yma ........ 29
Cyhoeddi graddau ........ 30
Meysydd i'w gwella a'u newid ........ 35
6 Casgliadau ........ 36
7 Argymhellion ........ 38
8 Atodiad 1: Arolygon ar-lein ........ 41
9 Atodiad 2: Cyfweliadau â rhanddeiliaid ........ 68

# 1 Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod hydref 2023, gyda'r nodau o (1) asesu effeithiolrwydd graddau heb eu cyhoeddi (y cyfeirir atynt fel rhai mud weithiau) wrth wella ansawdd gwasanaethau cymorth preswyl a chartref yng Nghymru ac (2) archwilio cysondeb ymarfer wrth gymhwyso graddau a'r effaith ar ddarparwyr gwasanaethau a thimau arolygu. Nod canfyddiadau'r gwerthusiad yw llywio arolygiadau wedi'u trefnu yn ystod 2024/25 ac unrhyw addasiadau i drefniadau presennola ddylai gyd-fynd â'r broses a drefnwyd o gyhoeddi graddau o fis Ebrill 2025.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar wella'r graddau a'r modd y gallent weithredu yn y dyfodol, gan dybio bod Gweinidogion yn debygol o gadw graddau yn y dyfodol rhagweladwy a'u bod yn debygol o gael eu cyhoeddi o fis Ebrill 2025.

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid ac roedd wedi'i lywio gan linellau ymholi allweddol sy'n canolbwyntio ar safbwyntiau ar y cysyniad o raddau; eu strwythur presennol; eu heffaith ar y broses o ddarparu gwasanaethau; cyfleoedd canfyddedig a risgiau sy'n gysylltiedig â'u cyhoeddi; a meysydd y gellid eu newid a'u datblygu yng ngham nesaf y broses weithredu.

Mae'r broses o gyflwyno graddau o fewn cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ehangach a nodir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cymru Iachach a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, lle mae adran 37 yn rhoi pwerau i Weinidogion gyflwyno graddau.

Mae amrywiaeth o ddulliau o arolygu a chymhwyso graddau ar draws sectorau yng Nghymru a'r DU, er mai cymhwyso graddau yw'r arfer safonol. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod graddau'n cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau gofal cymdeithasol, er nad oes darlun cynhwysfawr.

Y **casgliadau** o'n gwerthusiad, o ystyried tystiolaeth o fframweithiau graddau eraill a data meintiol ac ansoddol sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth preswyl a chartref yng Nghymru yw:

- **Bod graddau'n cyd-fynd yn strategol â'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ehangach** ac yn rhan ddilys o wasanaethau cyhoeddus sy'n gwbl atebol.
- Ar draws grwpiau rhanddeiliaid **mae amrywiaeth eang o safbwyntiau ynghylch effeithlonrwydd a phriodolrwydd graddau.** Mae'r sawl sy'n gefnogol ohonynt yn nodi eu cyfraniad posibl at gynnig dewis ystyrlon i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth ac wrth ysgogi gwelliant.
- Mae'r sawl sy'n llai cefnogol yn codi pryderon ynghylch yr **effaith ar reolwyr a staff a bygythiadau posibl i gynaliadwyedd darparwyr unigol a'r farchnad ehangach.**
- **Nid yw diben graddau a'u prif gynulleidfa yn glir i bob rhanddeiliad.** Dylid cyfleu'r manteision bwriadedig ar gyfer y cyhoedd a darparwyr yn briodol yn ystod cam nesaf y broses weithredu.
- I gael yr effaith fwyaf, mae angen i grwpiau rhanddeiliaid gymryd **mwy o berchenogaeth o raddau.**
- **Ni all fframweithiau perfformiad presennol ddangos effaith graddau,** ac mae hyn yn faes y gellir ei ddatblygu ymhellach.
- **Mae pryderon ynghylch agweddau ar strwythur presennol graddau,** yn benodol ehangder mawr y radd 'Da' a'r cysylltiad rhwng y thema Llesiant a themâu eraill a gaiff ei ystyried yn gamarweiniol mewn rhai achosion. Gellid ailystyried disgrifyddion thema i feithrin dull sy'n seiliedig ar gryfderau lle y bo'n briodol.

- **Mae achos rhesymegol dros gyhoeddi'r graddau a cheir cynsail mewn trefniadau graddau eraill.** Er hyn, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r graddau yn llawn o ran effaith bosibl ar les meddwl rheolwyr a staff, sefydlogrwydd timau staff, sefyllfa ariannol darparwyr a cholled bosibl i'r busnes wedi'u hymarfer yn llawn. Felly, dylid dilyn amrywiaeth o gamau diogelwch llym cyn cyhoeddi.
- Mae'n werth **darparu naratifau byr ynghyd â graddau i alluogi'r cyhoedd ac eraill i werthfawrogi'r cyd-destun ehangach** heb orfod darllen yr adroddiad llawn.
- Mae **cam gweithredu newydd a rheoliadau diwygiedig yn cynnig cyfle i gyflwyno newidiadau ehangach i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r gwerthusiad hwn,** wedi'i gyd-gynhyrchu â phob rhanddeiliad allweddol.

Mae 15 o argymhellion wedi codi o'n gwerthusiad, gyda'r 12 cyntaf ar gyfer AGC a'r 3 arall ar gyfer AGC ac asiantaethau partner, gan ddangos ein barn bod angen dull cwbl gydweithredol o gyflwyno'r gwelliannau a awgrymir.

**Argymhelliad 1:** Dylai AGC lansio'r adroddiad hwn yn ffurfiol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhanddeiliaid hynny a gyfrannodd at y gwerthusiad, gan wneud ymrwymiad clir i ddatblygu'r argymhellion drwy ddull sy'n seiliedig ar gyd-gynhyrchu.

**Argymhelliad 2:** Wrth baratoi ar gyfer cam nesaf y broses o roi'r fframwaith graddau ar waith, dylai AGC gyflwyno rhaglen newid sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng gwanwyn 2 a dechrau 2025, wedi'i ategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr. Dylid mabwysiadu dull â thema, wedi'i lywio gan yr argymhellion hyn ac wedi'i gynllunio i lunio gwelliannau a gaiff eu hymgorffori mewn rheoliadau diwygiedig a'u rhoi ar waith dros gyfnod o amser a ddiffiniwyd.

**Argymhelliad 3:** Fel elfen allweddol, dylai'r rhaglen newid gynnwys amserlen ymgysylltu fanwl, gan hwyluso cyfranogiad ystyrlon gan randdeiliaid perthnasol ym mhob thema drwy dasgluoedd a gwneud y gorau o gyfleoedd i ddarparwyr gwasanaethau gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y gwasanaethau a ddarperir a phwysau ar y llinell flaen a chynnig amrywiaeth o ddulliau sy'n annog cynhwysiant, gan gynnwys sesiynau y tu allan i oriau a sesiynau ar-lein.

**Argymhelliad 4:** Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu glir wedi'i hanelu at yr holl randdeiliaid i gyd-fynd â'r newidiadau wrth iddynt gael eu cyflwyno, gan gyfleu diben y graddau a sut y dylid eu dehongli, ynghyd â chwalu mythau posibl a allai niweidio enw da ac effaith y graddau. Dylai'r dulliau cyfathrebu hefyd roi gwybodaeth glir i ddarparwyr ynghylch sut y gwneir penderfyniadau ar raddau, gan leihau'r potensial y bydd amwysedd a heriau posibl.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r rhaglen newid hefyd gynnwys adolygiad o'r pedair thema bresennol sy'n cael eu graddio (llesiant, gofal a chymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth, a'r amgylchedd). Dylai hyn ystyried yn benodol swyddogaeth y thema llesiant ac ystyried torri'r cysylltiad â'r tair thema arall o ran lefelau graddau.

**Argymhelliad 6:** Dylid cynnal adolygiad o lefelau a disgrifyddion y graddau presennol, er mwyn rhoi syniad mwy effeithiol o berfformiad darparwr yn erbyn pob thema ac, yn benodol, roi safle gwahanol i'r rheini sy'n cael gradd 'Da'.

Ymysg yr opsiynau mae:

- Cyflwyno gradd neu raddau ychwanegol, er enghraifft cynnwys 'da iawn'
- Adolygu'r disgrifydd presennol ar gyfer y radd 'Rhagorol'.
- Datblygu echelin weledol syml sy'n cynnwys lefelau'r graddau a sicrhau y gellir arddangos union safle gwasanaeth yn glir.

- Defnyddio system graddau sêr fel yr un a ddefnyddir yn y Safonau Hylendid Bwyd, i ddangos safle presennol gwasanaeth.

**Argymhelliad 7:** Dylid adolygu prosesau herio presennol a'u hatgyfnerthu fel sydd angen, gan sicrhau bod gan ddarparwyr gyfleoedd rhesymol i herio'r sail y penderfynwyd ar raddau a rhoi tystiolaeth ychwanegol sy'n berthnasol yn eu barn nhw, o bosibl fel sail ar gyfer ailystyried y graddau hyn. Mae tryloywder gan AGC ar sut y gwneir penderfyniadau yn allweddol. Bydd cael y graddau'n gywir yn arbennig o bwysig ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 8:** Dylid manteisio ar gyfleoedd i wella cyfathrebu â darparwyr ynghylch yr hyn sy'n digwydd ar ôl arolygiad a'r amserlenni ar gyfer ail-arolygu, gan eu helpu i fframio eu gweithgarwch gwella a datblygu.

**Argymhelliad 9:** Dylid sefydlu gweithgorau proffesiynol gan gynnwys AGC, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr fel Fforwm Gofal Cymru a chomisiynwyr awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd er mwyn ystyried goblygiadau graddau, yn enwedig sut y gall y sector gofal gefnogi a diogelu'r farchnad a lliniaru'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r graddau.

**Argymhelliad 10:** Cyn i'r graddau gael eu cyhoeddi, dylid datblygu templed ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill am y modd y lluniwyd y farn (cydbwyso cryfderau a meysydd sy'n peri pryder), ac o bosibl sut mae darparwyr wedi ymrwymo i wella. Bydd hyn yn helpu i leihau'r hyn a ganfyddir fel yr effaith 'erfyn di-awch', gan sicrhau y gall pobl wneud penderfyniadau hyddysg ac ystyriol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â gofal preswyl plant lle nad yw'r adroddiadau llawn wedi cael eu cyhoeddi eto.

**Argymhelliad 11:** Dylai rhanddeiliaid gael cyfarwyddiadau clir ynghylch sut y dylid rhannu graddau a gyhoeddwyd, (er enghraifft, drwy eu harddangos mewn sefydliadau lle y bo'n bosibl neu ar wefannau darparwyr). Bydd angen ystyried logisteg rhannu graddau ar gyfer darparwyr cymorth cartref, o ystyried nad yw'n debygol y bydd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u teuluoedd/gofalwyr yn ymweld â'r safleoedd a ddefnyddir gan y sefydliadau hyn.

**Argymhelliad 12:** Dylid datblygu rhaglen 'cyngor, cymorth a myfyrio' a'i rhoi ar waith i gyd-fynd â'r newidiadau, gan gynnwys:

- Hyfforddiant i arolygwyr ar y dull graddio ac, yn hanfodol, sut i gefnogi darparwyr drwy'r broses gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant priodol ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a chyngor ar atgyfeirio rheolwyr i gael cymorth priodol pan fo angen.
- Hyfforddiant a datblygiad mwy cyffredinol i arolygwyr ar gynnal arolygiadau sy'n seiliedig ar raddau, egluro rolau a chyfrifoldebau a chefnogi arferion cyson.
- Hyfforddiant i'r arolygwyr i'w helpu i gael gafael ar ddata a gwybodaeth berthnasol gan ddarparwyr i'w defnyddio mewn arolygiadau.
- Sesiynau ymwybyddiaeth ar y cyd ar gyfer arolygwyr a darparwyr i archwilio'r fframwaith diwygiedig a sut y gellir ei roi ar waith a'i reoli'n effeithiol, gan wneud prosesau AGC yn fwy tryloyw pan fydd angen.
- Sesiynau adolygu ar y cyd wedi'u trefnu i alluogi rhanddeiliaid i fyfyrio ar y trefniadau diwygiedig sydd ar waith a nodi newidiadau a manylion pan fydd angen. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys sut y penderfynir ar raddau, a dylent fod yn allweddol wrth sicrhau gwell cysondeb wrth ymarfer.

**Argymhelliad 13:** Dylid rhoi ystyriaeth i ddulliau posibl ar gyfer rhannu a symleiddio ymarfer effeithiol. Dylai'r rhain alluogi'r gwasanaethau hynny sydd â graddau uwch i fentora a chefnogi'r rheini a gafodd raddau llai ffafriol. Gallai'r dulliau gynnwys gwella a chyflwyno'r cymunedau ymarfer ymhellach; cyfeillio a hyfforddiant a mentora anffurfiol; a chysgodi neu gyfnewid, pan fydd capasiti a threfniadau staffio yn caniatáu.

**Argymhelliad 14:** Dylid archwilio dulliau posibl o fonitro effaith graddau ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, a'r canlyniadau i bobl. Dylai hyn gynnwys ystyried dangosyddion perfformiad a setiau data ychwanegol sy'n ategu ac yn adeiladu ar fesurau perfformiad presennol. Dylid dylunio'r fframwaith mewn ffordd sy'n lleihau beichiau ychwanegol ar ddarparwyr wrth gaffael a chasglu gwybodaeth berthnasol.

**Argymhelliad 15:** Dylai AGC a phartneriaid perthnasol gydweithio i sicrhau bod graddau yn llywio trefniadau sicrhau ansawdd o fewn fframweithiau comisiynu cenedlaethol a lleol, a phrosesau Uwchgyfeirio Pryderon.

# 2 Cyflwyniad

Comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod hydref 2023. Fel y nodwyd yn nogfennau'r tendr, ei nodau oedd:

- Asesu effeithiolrwydd graddau heb eu cyhoeddi (y cyfeirir atynt weithiau fel rhai mud) wrth wella ansawdd gwasanaethau cymorth preswyl a chartref yng Nghymru.
- Archwilio cysondeb ymarfer wrth gymhwyso'r graddau yn ogystal â'r effaith ar ddarparwyr gwasanaethau a thimau arolygu.

Amcanion y gwerthusiad oedd:

- Dadansoddi'r data a gasglwyd ers mis Mehefin 2023 ar draws yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu graddio, gan nodi goblygiadau i'r sector gofal cymdeithasol.
- Casglu a chrynhoi safbwyntiau ystod o randdeiliaid mewn perthynas â rhoi'r system graddau heb eu cyhoeddi ar waith, gan gynnwys yr hyn sy'n rhwystro ac yn hwyluso'r broses o roi'r system hon ar waith.
- Gwneud argymhellion i AGC ar y gwelliannau hynny sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu mor effeithiol â phosibl.

Cynhaliwyd y gwerthusiad gan dîm bach o Practice Solutions. Aelodau'r tîm oedd:

- Martyn Palfreman (arweinydd y prosiect)
- Paul Pavia
- Hannah Thomas

Cefnogwyd y gwerthusiad gan Helen Mary Jones a Sara Powys drwy hwyluso sesiwn ymgysylltu â darparwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nod canfyddiadau'r gwerthusiad yw llywio arolygiadau wedi'u trefnu yn ystod 2024/25 ac unrhyw addasiadau i drefniadau presennola ddylai gyd-fynd â'r broses a drefnwyd o gyhoeddi graddau o fis Ebrill 2025.

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn rhoi dadansoddiad o (1) yr amgylchedd deddfwriaethol a'r amgylchedd polisi y mae'r graddau heb eu cyhoeddi presennol yn gweithredu ynddo; (2) canllawiau interim i ddarparwyr ar y graddau; (3) canllawiau ymarfer i arolygwyr ar gamau gorfodi sifil; (4) tystiolaeth o fframweithiau graddau tebyg sy'n gweithredu mewn sectorau gwahanol ledled y DU; a (5) safbwyntiau amrywiaeth o randdeiliaid ar y broses bresennol o weithredu'r graddau a'i heffaith ganfyddedig hyd yma.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r graddau a sut y gallent weithredu yn y dyfodol. Gan gyd-fynd â'r tendr ac adlewyrchu trafodaethau â'r Cleient, mae'r argymhellion yn seiliedig ar ddwy dybiaeth, sef:

- Bod gweinidogion yn debygol o gadw graddau yn y dyfodol rhagweladwy; a
- Bod graddau yn debygol o gael eu cyhoeddi o fis Ebrill 2025.

Nod ein hargymhellion yw mynd i'r afael â phryderon a godir gan rai rhanddeiliaid a oedd o'r farn na ddylid parhau â'r graddau a/neu na ddylid cyflwyno'r broses gyhoeddi.

# 3 Methodoleg

Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys:

- Ystyried y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi lle mae'r graddau heb eu cyhoeddi yn gweithredu.
- Asesu'n feirniadol fframweithiau graddau eraill a ddefnyddir mewn sectorau gwahanol ledled y DU a nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer cam nesaf y graddau ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref a gwasanaethau cymorth cartref.
- Dadansoddi data sydd ar gael a gyflenwir gan AGC wrth roi'r graddau heb eu cyhoeddi ar waith hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys (1) adborth ar raddau gan ddarparwyr ar gamau cynllunio a gweithredu amrywiol; a (2) archwiliad thematig o heriau Cam 1 a 2 a gafwyd ynghylch cyflawnrwydd tystiolaeth a thegwch/cymesuredd y canfyddiadau yr oedd y graddau'n seiliedig arnynt.
- Dosbarthu arolygon dwyieithog, ar-lein i amrywiaeth o randdeiliaid gan geisio eu barn ar y llinellau ymholi a nodir yn Ffigur 1 isod.

*Ffigur 1*

| **Llinellau ymholi ar gyfer y gwerthusiad** | |
|---|---|
| 1 | Safbwyntiau ar y cysyniad o raddau |
| 2 | Manteision ac anfanteision canfyddedig graddau |
| 3 | Y graddau yr oedd rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r graddau |
| 4 | Strwythur y fframwaith graddau (yn benodol, priodolrwydd neu ddiffyg priodolrwydd y themâu a'r graddau a ddefnyddir) |
| 5 | Lle y bo'n gymwys, y profiad o'r arolygiadau hyd yma gan gynnwys y broses arolygu yn seiliedig ar raddau a'r broses o'i rhoi ar waith |
| 6 | Effaith graddau ar y gwasanaethau a ddarperir, os o gwbl |
| 7 | Y cyfleoedd a'r risgiau a ddaw yn sgil cyhoeddi graddau |
| 8 | Meysydd posibl i'w newid a'u gwella yn y cam nesaf |

- Datblygu fersiynau pwrpasol o'r arolwg i arolygwyr, gwasanaethau a oedd wedi cael eu harolygu gyda graddau, gwasanaethau eraill a oedd yn destun graddau ond nad oeddent wedi cael arolygiad eto, a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd/gofalwyr. Mae fersiynau gwag o bob arolwg wedi'u darparu er gwybodaeth yn **Atodiad 1**

- Darparu cyfres o weithdai rhithwir, wedi'u hwyluso sy'n canolbwyntio ar yr un llinellau ymholi â'r rhai sy'n sail i'r arolygon ar-lein. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys trafodaeth wedi'i hwyluso, yn bennaf mewn grwpiau unigol. Fodd bynnag, roedd y sesiynau yn Saesneg ar gyfer darparwyr yn cynnwys trafodaethau grŵp a thrafodaethau llawn i nodi pwyntiau allweddol. Ym mhob sesiwn gwnaethom hefyd ddarparu dyfeisiau 'padlet' (byrddau gwyn rhithwir yn y bôn) a oedd yn galluogi cyfranogwyr i gyflwyno sylwadau dienw ar-lein. Roedd y rhain ar gael yn ystod y sesiynau ac am 24 awr pellach.

Cynhaliwyd gweithdai penodol fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd 4 sesiwn gydag arolygwyr ar 28 Chwefror 2024 (a fynychwyd gan 51 o bobl)

- Cynhaliwyd 3 sesiwn â darparwyr/gwasanaethau a 12, 14 a 22 Mawrth 2024, ac roedd un o'r rhain drwy gyfrwng y Gymraeg (gyda 142 wedi mynychu i gyd).
- Ymgysylltu â chydweithrediad Comisiynu Gofal Cymru[1] gan gynnwys trafodaeth lefel uchel gyda'r rhwydwaith a sesiwn wedi'i hwyluso ar 12 Ebrill 2024 gyda grŵp ffocws yn cynnwys pedwar swyddog comisiynu.

Cafwyd cyfweliadau strwythuredig drwy Teams gyda rhanddeiliaid unigol yn cynrychioli rhannau gwahanol o AGC a'i phrif randdeiliaid sefydliadol, gan gynnwys y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio o fewn Llywodraeth Cymru, Fforwm Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. (Ceir rhestr o'r cyfweliadau a gynhaliwyd yn **Atodiad 2**).

Gwnaethom gynnal sgyrsiau manwl ar-lein gyda phum darparwr, a ddewiswyd o sampl o 16 o wasanaethau a oedd wedi cael arolygiadau gyda graddau ac yn adlewyrchu amrywiaeth o gategorïau gwasanaeth gwahanol, lleoliadau daearyddol, sectorau a maint y gweithrediad. Gofynnwyd i Unigolion Cyfrifol, rheolwyr neu uwch-swyddogion eraill gymryd rhan yn y sgyrsiau hyn. Er ein bod yn siomedig â lefel yr ymateb gan y gwasanaethau a ddewiswyd (o ystyried bod 16 wedi cael gwahoddiad i gwrdd â ni), rydym yn gwerthfawrogi y gallai hyn fod oherwydd pwysau gweithredol neu ddiffyg argaeledd i ymgysylltu o fewn amserlenni'r gwerthusiad. Roedd y nifer bach o ymatebion hefyd yn golygu nad oeddem yn gallu gofyn am sgyrsiau dilynol posibl gyda phobl gan ddefnyddio'r gwasanaethau a ddewiswyd a'u teuluoedd/gofalwyr. Er hyn, drwy ymgysylltu â nifer sylweddol o ddarparwyr drwy ddulliau eraill, llwyddwyd i wneud iawn am unrhyw ddiffyg dilynol yn y data.

Ar y cyfan, roedd lefel ac ehangder yr ymgysylltu yn galonogol ac yn rhoi sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y gwerthusiad a'i argymhellion. Yn benodol, roedd nifer yr ymatebion i'r arolwg ar-lein (fel y dangosir yn Ffigur 2) yn galonogol.


*Ffigur 2*

| Grŵp rhanddeiliaid | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Arolygwyr | 55 |
| Gwasanaethau a arolygwyd eisoes | 72 |
| Gwasanaethau nas arolygwyd eisoes | 53 |
| Pobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth | 4 |
| Teuluoedd/gofalwyr pobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth | 5 |

Ceir rhestr o'r ymatebwyr i'r arolwg isod.

[1] Cydweithrediad yw Comisiynu Gofal Cymru a hwylusir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd â diben eang o wella ansawdd y broses o gomisiynu gofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru ac o ddatblygu ymarfer effeithiol mewn perthynas â chomisiynu integredig rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

*Ffigur 3*




Caiff dadansoddiad manwl o ddata a gesglir yn y cam ymgysylltu ei ddarparu ar wahân mewn dogfen ategol *'Dadansoddiad o Randdeiliaid'*.

Drwy'r gwerthusiad hwn, gwnaethom gwrdd yn rhithwir bob pythefnos gyda grŵp llywio prosiect mewnol yn cynnwys y Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant, y Rheolwr Tîm ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Oedolion a staff o'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid ar gynnydd ac i brofi canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Yn Adran 4 o'r adroddiad hwn, rydym wedi grwpio'r canfyddiadau o dan y llinellau ymholi allweddol a nodir yn Ffigur 1. Caiff tystiolaeth o'n gwaith desg a'n gwaith maes ei hystyried yn erbyn pob llinell ymholi. Defnyddiwyd gwaith ar y themâu fel sail i gyfres o gasgliadau, sydd yn eu tro yn llywio ein hargymhellion. Cyflwynir y rhain yn adrannau 5 a 6 o'r adroddiad.

# 4 Cyd-destun

## Polisi a deddfwriaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [2] yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n ysgogwr pwysig wrth drawsnewid gofal a chymorth ac integreiddio gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, asiantaethau statudol eraill a'r trydydd sector a'r sector gwerth cyhoeddus. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd canlynol:

- Cefnogi pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i wella eu llesiant.
- Sicrhau bod pobl yn rhan ganolog o'r gofal a'r cymorth a gânt.
- Partneriaeth a chydweithredu yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Ffocws ar atal.

Caiff yr egwyddorion hyn eu datblygu ymhellach yng nghynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, ‘Cymru Iachach’ (2018)[3], sy'n nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer dull ‘system gyfan’ sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Ymysg deg egwyddor cynllunio genedlaethol a nodir yn y cynllun sy'n allweddol i ysgogi newid a thrawsnewid mae'r canlynol:

- Diogelu – galluogi pobl i fyw'n ddiogel o fewn teuluoedd a chymunedau.
- Annibyniaeth – helpu pobl i reoli eu hiechyd a’u llesiant, bod yn gadarn ac yn annibynnol am gyfnod hwy.
- Llais – grymuso pobl â’r wybodaeth a’r cymorth sydd eu hangen i ddeall a rheoli eu hiechyd a’u llesiant, i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth ar sail ‘beth sy’n bwysig’ iddyn nhw.
- Personol – gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi’u teilwra i anghenion a dewisiadau’r unigolyn.
- Di-dor – gwasanaethau a gwybodaeth lai cymhleth ac wedi’u cydlynu’n well i’r unigolyn; integreiddio proffesiynol, cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwyr.
- Seiliedig ar dystiolaeth – defnyddio ymchwil, dysg a gwybodaeth i ddeall beth sy’n gweithio, dysgu drwy weithio gydag eraill.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[4] ddilynol yn adlewyrchu'r egwyddorion cyffredinol hyn yng nghyd-destun darparu gwasanaethau, yn benodol drwy sicrhau bod darparwyr gofal cymdeithasol yn cyrraedd safonau gofynnol o ran ansawdd a diogelwch. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu i ddiogelu llesiant unigolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth. Ei phrif amcanion yw:

- Hyrwyddo llesiant a hawliau unigolion sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Pennu safonau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel.
- Sefydlu fframwaith rheoleiddiol i oruchwylio ac arolygu darparwyr gofal cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau gofynnol.
- Gwella tryloywder ac atebolrwydd yn y sector gofal cymdeithasol.

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)
[3] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf
[4] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk)

- Annog cydweithredu a gwaith partneriaeth ymysg darparwyr gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol eraill.

Cyflwynodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 system reoleiddio ac arolygu newydd, gan adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Rhoi pobl wrth wraidd eu gofal a chymorth.
- Datblygu dull Cymreig cydlynus a chyson.
- Mynd i'r afael â methiant gan y darparwr.
- Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon dros ansawdd y gofal a'r cymorth.

## AGC

AGC yw'r corff rheoleiddiol sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Ei swyddogaeth yw rhoi sicrwydd ar ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir gan gartrefi gofal preswyl i oedolion a phlant, asiantaethau gofal cartref, asiantaethau mabwysiadu a maethu, llety diogel i blant a phobl ifanc, canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau lleoliadau i oedolion, gwasanaethau preswyl i ysgolion arbennig a gwasanaethau eirioli, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn cyrraedd safonau gofynnol.

Mae tair blaenoriaeth strategol AGC fel a ganlyn:

- **Bod yn llais dibynadwy i ddylanwadu ar welliannau a'u llywio**, fel eiriolwr ar gyfer hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau gofal a chymorth.
- **Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson** yn ei rolau rheoleiddio a goruchwylio.
- **Bod yn fedrus ac yn ymatebol** wrth gyflawni ei chyfrifoldebau.

Egwyddorion canllaw AGC yw: (1) rhoi pobl yn gyntaf, (2) arwain gan wybodaeth, (3) yn seiliedig ar risg ac ymateb i risgiau, (4) cydweithio, (5) cefnogi gwelliant ac arloesedd, a (6) myfyrio a dysgu.

Ymysg yr amryw o swyddogaethau sydd gan AGC mae:

- Cofrestru gwasanaethau, gan sicrhau mai dim ond y bobl hynny y bernir eu bod yn addas ac sy'n debygol o ddarparu gofal o ansawdd da a gaiff eu cofrestru i wneud hynny.
- Cynnal arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd ac arolygiadau dirybudd yn rheolaidd er mwyn asesu gofal, diogelwch, lefelau staffio a rheoli o fewn gwasanaethau rheoleiddiedig (mae amlder yr arolygiadau yn dibynnu ar y math o wasanaeth a'r perfformiad).
- Cynnal arolygiadau thematig o feysydd gofal a chymorth penodol, fel cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a diogelu.
- Cyhoeddi adroddiadau arolygu ar ei gwefan (oni fyddai gwneud hynny yn arwain at risg o adnabod plant neu oedolion sy'n agored i niwed).[5]
- Cymryd amrywiaeth o gamau os caiff gofal gwael ei nodi neu lle nad yw darparwyr yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol gan y gyfraith. Gall hyn gynnwys rhoi amodau ar gofrestriad y darparwr, cau gwasanaeth neu ganslo cofrestriad y darparwr.

[5] AGC, Polisi ar gyfer Ymateb i Adroddiadau Arolygu [diweddarwyd ym mis Mai 2023]

## Graddau arolygu

Mae adran 37 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch graddau y gellir eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi cael ei arolygu. Gall y rheoliadau nodi meini prawf i'w cymhwyso wrth gael gradd a rhaid iddynt gynnwys darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn gradd sydd wedi'i chynnwys mewn adroddiad arolygu. Gall hefyd wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth arddangos graddau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad arolygu.

Yn ymarferol, mae'r broses o gyflwyno graddau gan AGC wedi bod yn un raddol. Dechreuodd AGC gyflwyno graddau ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae o 2016.[6] Cyflwynwyd system graddau heb eu cyhoeddi neu fud ym mis Ebrill 2016, gyda graddau'n dechrau cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2019.

Ym mis Ebrill 2018, daeth Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i rym a dechreuodd Llywodraeth Cymru drafod ag AGC ynghylch sut y gellid cyflwyno Adran 37 (graddau) yn raddol, i ddechrau ar gyfer gwasanaethau cymorth preswyl a chartref. Paratowyd papur cwmpasu, gan nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gweithredu graddau o'r fath a chynigiwyd proses o'u cyflwyno'n raddol fesul cam yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae, gan ddechrau gyda chyfnod peilot lle na fyddai'r graddau'n cael eu cyhoeddi o hyd. Esboniodd y byddai angen gwerthusiad annibynnol o'r cam peilot cyn dechrau cyhoeddi'r graddau. Yn dilyn peilot gwasanaeth o raddau ar raddfa fach a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2018, cafodd rhanddeiliaid (gan gynnwys arolygwyr a darparwyr) eu cynnwys mewn cyfres o sgyrsiau gan gynnig rhywfaint o gyfleoedd i gydgynllunio ac ystyried cyfleoedd, risgiau a phryderon.

Cafwyd oedi yn y broses o gyflwyno'r graddau'n raddol oherwydd pandemig COVID-19 ar ddechrau 2020. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd AGC na fyddai'r broses o gyflwyno ei system graddau yn raddol yn dechrau tan fis Ebrill 2023. Dechreuodd AGC gyflwyno graddau'n raddol ar gyfer cartrefi gofal preswyl a gwasanaethau cymorth gofal cartref o 1 Ebrill 2023. Byddai hon yn broses dwy ran:

- Cam un – system o raddau heb eu cyhoeddi ar gyfer pob cartref gofal preswyl (ar gyfer oedolion a phlant) a gwasanaethau cymorth cartref a arolygir rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mawrth 2024 i ddechrau (er bod hyn wedi'i ymestyn i fis Mawrth 2025 wedi hynny).
- Cam dau – cyhoeddi'r graddau ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal preswyl (ar gyfer oedolion a phlant) a gwasanaethau cymorth cartref a arolygir o fis Ebrill 2025.

Rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2023, cynhaliwyd tua 500 o arolygiadau gan ddefnyddio'r drefn graddau newydd. Cynhaliwyd rhagor o arolygiadau yn ystod y cyfnod gwerthuso, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2024 ac a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2024.

## Graddau heb eu cyhoeddi ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref: Sut maent yn gweithio

Fel y cyflwynwyd, mae'r graddau'n cynnwys pedair thema arolygu: llesiant, gofal a chymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth a'r amgylchedd. Rhoddir un o'r graddau a nodir isod i bob thema.

[6] AGC, Sut rydym yn arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae.

*Ffigur 4*

| Gradd | Disgrifydd |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaeth neilltuol sy'n cefnogi pobl yn dda iawn ac yn rhagori ar ein disgwyliadau. |
| **Da** | Dyma wasanaeth da sy'n cefnogi pobl yn dda ac yn bodloni ein disgwyliadau. |
| **Angen gwella** | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl yn dda ac mae angen iddo wella er mwyn bodloni ein disgwyliadau. |
| **Gwael** | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl yn ddiogel ac mae angen cymryd camau brys i ddiogelu pobl a gwella canlyniadau. |

Ni roddir gradd gyffredinol i wasanaethau ar ben y rheini a roddir yn erbyn pob un o'r pedair thema. Fodd bynnag, nod y thema llesiant yw dangos i ba raddau y caiff canlyniadau llesiant eu cyflawni gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth am fod y trefniadau sydd ar waith gan ddarparwyr mewn perthynas â gofal a chymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth a'r amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol arno. Yn yr un modd, pan gaiff canlyniadau gwael eu nodi a phan fydd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth[7] yn cael ei rhoi o dan unrhyw un o'r themâu hyn, y radd uchaf y gellir ei chyflawni o dan y thema llesiant yw 'Gwael'. Os caiff gofyniad 'mae i'w wella' ei nodi yn erbyn unrhyw un o'r themâu eraill, y radd uchaf y gellir ei chyflawni o dan y thema llesiant yw 'Angen Gwella'.

Cynhelir arolygiadau o gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref sy'n defnyddio'r graddau yn unol â darpariaethau presennol, fel y Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig[8] a chanllawiau ymarfer perthnasol sy'n gysylltiedig ag arolygu, casglu tystiolaeth a llunio adroddiadau. Rhoddir canllawiau ategol i arolygwyr mewn perthynas â rhoi adborth ar y modd y defnyddiwyd y graddau a'r modd y mae'r defnydd o eiriau 'gwerthusol' mewn adroddiadau arolygu yn cysylltu'r naratif â'r graddau.

Er na all darparwyr gwasanaethau herio graddau yn uniongyrchol nac apelio yn eu herbyn, gallant gyflwyno sylwadau am ba mor gyflawn yw'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd a/neu degwch a/neu gymesuredd canfyddiadau'r arolygiad y mae'r graddau'n seiliedig arno. Yn y cam gweithredu presennol, ni chaiff graddau eu cynnwys mewn adroddiadau arolygu a dim ond fel rhan o'r broses adborth y cânt eu rhannu â darparwyr gwasanaethau/rheolwyr.

Lluniwyd canllawiau cryno ar gyfer y cam peilot ar gyfer darparwyr[9].

[7] Lle bydd AGC wedi nodi methiannau y mae angen Gweithredu â Blaenoriaeth yn eu cylch, bydd yn cymryd y camau canlynol:

- bydd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn nodi'r camau y mae angen i'r darparwr eu cymryd i wella. Bydd hefyd yn nodi'r rheoliadau nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â nhw ac yn rhoi manylion am y dystiolaeth a nodwyd gan AGC wrth ddod i'r casgliad hwn.
- caiff Adroddiad Gweithredu â Blaenoriaeth ei gyflwyno i'r darparwr a fydd yn nodi'r hysbysiad(au) gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu i wella'r canlyniadau i bobl.

Caiff ail arolygiad ei gynnal o fewn chwe mis i ddyddiad yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

[8] Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

[9] www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2023-09/230915-Interim-practice-guidance-Provider-ratings-cy.pdf (arolygiaethgofal.cymru)

## Dulliau rheoleiddio eraill

Ceir crynodeb o'n hymchwil i'r amrywiaeth o ddulliau arolygu a rheoleiddio a ddefnyddir gan wasanaethau eraill yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU isod.

**Yng Nghymru:**

Cyn 2022, defnyddiodd **Estyn**, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru, system raddio grynodol ar gyfer ei harolygiadau o ysgolion. Rhoddwyd graddau crynodol fel 'Rhagorol', 'Da' neu 'Ddigonol' i ysgolion. Roedd y graddau hyn yn seiliedig ar ffactorau amrywiol gan gynnwys ansawdd yr addysgu, arweinyddiaeth yr ysgol, cyflawniadau'r dysgwyr a gallu'r ysgol i wella.

Fodd bynnag, newidiodd y dull hwn yn 2022, pan ddiwygiodd y rheoleiddiwr ei drefn arolygu i gyd-fynd â'r broses o ddatblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Pan dreialodd Estyn y broses o beidio â chynnwys graddau yn eu hadroddiadau arolygu, newidiodd y ffocws o roi gradd i nodi i ba raddau roedd y darparwyr yn helpu'r plant i ddysgu.[10] Mae'r pwyslais ar drafodaethau personol yn hytrach nag asesu data perfformiad. Mae adroddiadau arolygu yn nodi cryfderau ysgol a meysydd i'w datblygu ac mae crynodeb ar wahân ar gyfer rhieni yn darparu gwybodaeth allweddol yn gyflym mewn iaith sy'n hawdd ei deall.[11] Nid yw'n defnyddio graddau crynodol mwyach. Bydd y cylch arolygu newydd yn dechrau ym mis Medi 2024.

Mae **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd y GIG a gwasanaeth gofal iechyd annibynnol gyda'r nod o sicrhau bod pobl yn cael gofal da. Mae'n defnyddio fframwaith arolygu yn seiliedig ar dair thema: (1) ansawdd profiad y claf, (2) darparu gofal diogel ac effeithiol a (3) ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae arolygiadau'n cynnwys sgyrsiau gyda staff a chleifion ac archwiliad o drefniadau'r gwasanaeth ar gyfer hunanasesu. Caiff adroddiadau arolygu manwl eu cyhoeddi, gan ganolbwyntio ar thema'r arolygiad a nodi pryderon a chamau gweithredu gofynnol. Er na ddefnyddir graddau, mae adroddiadau crynodol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau o dan bob thema, meysydd i'w gwella a chamau nesaf a awgrymir.

Mae **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd**, sydd hefyd yn gweithredu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn sgorio busnesau bwyd yn seiliedig ar ganlyniad arolygiadau awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar arferion a gweithdrefnau trin bwyd, cyflwr a strwythur safleoedd a'r graddau y mae busnesau yn bodloni gofynion cyfreithiol mewn perthynas â diogelwch bwyd. Mae amlder ac amseru arolygiadau'n dibynnu ar ffactorau fel y math o fwyd a hanes cydymffurfiaeth. Nod y sgorau, a gaiff eu hesbonio yn Ffigur 5, yw helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch ble maent yn bwyta neu'n siopa am fwyd; i annog busnesau i wella eu safonau hylendid; ac i leihau achosion o salwch a gludir mewn bwyd.

*Ffigur 5*

| Gradd | Disgrifydd |
|---|---|
| 0 | Mae angen gwella ar frys. |
| 1 | Mae angen gwella yn sylweddol. |
| 2 | Mae angen gwella. |
| 3 | Mae'r safonau hylendid yn foddhaol ar y cyfan. |
| 4 | Mae'r safonau hylendid yn dda. |

[10] Estyn – Esbonio Arolygu
[11] Blog Addysg Cymru: Sut mae Estyn yn newid y dull arolygu o dan y Cwricwlwm i Gymru? Sylwadau gan arolygydd cymheiriaid

| | |
|---|---|
| 5 | Mae'r safonau hylendid yn dda iawn. |

**Yn Lloegr:**

Fel rheoleiddiwr annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r **Comisiwn Ansawdd Gofal** yn defnyddio fframwaith asesu sy'n canolbwyntio ar bum cwestiwn: diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau, pa mor ofalgar ydynt a ph'un a ydynt yn ymatebol ac wedi'u harwain yn dda. Caiff barn ei llunio gan sail dystiolaeth sy'n deillio o safbwyntiau pobl, staff, arweinwyr a phartneriaid, ynghyd ag arsylwadau o ofal a chanlyniadau. Mae arolygiadau'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn arwain at roi graddau i wasanaethau, gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt o 'outstanding', i 'good' ac 'requires improvement' i 'inadequate'. Caiff y graddau eu cymhwyso i bob maes yn y fframwaith asesu. Yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru, caiff gradd gyffredinol ei rhoi. Mae gradd annigonol yn arwain yn awtomatig at roi gwasanaeth yn destun mesurau arbennig, gydag arolygiad dilynol yn cael ei gynnal o fewn chwe mis fel arfer.

Mae'r **Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ysgolion (Ofsted)** yn arolygu ysgolion a gynhelir, rhai academïau a sefydliadau eraill ynghyd â chartrefi plant, asiantaethau gofal plant, mabwysiadu a maethu a hyfforddiant cychwynnol i athrawon. O ran ei chyfrifoldebau gofal cymdeithasol rheoleiddiol, mae'n defnyddio'r Fframwaith Arolygu Gofal Cymdeithasol Cyffredin.[12] Nid yw'r fframwaith hwn yn addas ar gyfer popeth. Ar y cyfan, mae'r meini prawf gwerthuso yn gyson ar draws y mathau gwahanol o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant ond maent yn adlewyrchu natur unigryw pob math o wasanaeth. Mae ei strwythur dyfarnu yn deillio o'i hegwyddor arolygu gyntaf - canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i fywydau plant - ac mae'n gosod cynnydd a phrofiadau plant a phobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau plant wrth wraidd yr arolygiadau.

Mae holl arolygon y Fframwaith Arolygu Gofal Cymdeithasol Cyffredin yn dilyn y raddfa pedwar pwynt (neilltuol, da, mae angen gwella i fod yn dda ac annigonol) i lunio barn ar brofiadau a chynnydd cyffredinol plant, gan ystyried i ba raddau y caiff y plant eu helpu a'u diogelu ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr.

O ran ei chyfrifoldebau rheoleiddiol ar gyfer ysgolion caiff pob un o ysgolion y wladwriaeth ei harolygu gan ddefnyddio fframwaith safonol ac mae'r arolygiadau'n arwain at un o bedair gradd, fel a ganlyn:

- Gradd 1 Ofsted: Neilltuol
- Gradd 2 Ofsted: Da
- Gradd 3 Ofsted: Angen Gwella
- Gradd 4 Ofsted: Annigonol.

Mae'r graddau'n seiliedig ar farn arolygwyr mewn pedwar categori, sef ansawdd yr addysg, ymddygiad ac agweddau, datblygiad personol y disgyblion ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Fel arfer, caiff ysgolion sy'n cael gradd annigonol eu hailarolygu o fewn tair blynedd. Bydd ysgolion sy'n cael gradd annigonol yn y rhan fwyaf o'r categorïau, gan gynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cael gradd 'mesurau arbennig' ynghyd ag ymyriad uniongyrchol gan Ofsted. Mae graddau Ofsted wedi bod yn destun trafod yn ddiweddar yn dilyn hunanladdiad Ruth Perry, pennaeth ysgol gynradd a gafodd radd annigonol. Daeth adroddiad y Crwner i farwolaeth Ms Perry i'r casgliad bod yr arolygiad wedi bod yn ffactor cyfrannol. Mewn ymateb[13], mae Ofsted wedi penderfynu ail-werthuso ei pholisïau a'i gweithdrefnau mewnol ac i:

[12] Ofsted, Social Care Common Inspection Framework
[13] Prevention of Future Deaths Report (Regulation 28): Ofsted's response (publishing.service.gov.uk)

- Roi hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i'r holl arolygwyr cyn iddynt gael eu cynnwys mewn arolygiadau.
- Cyflwyno polisïau a gweithdrefnau newydd mewn perthynas â diogelu, oedi arolygiadau pan fydd angen, rhoi cymorth ychwanegol i benaethiaid, cyfrinachedd a chwynion.

Hefyd, mae Ofsted wedi ymrwymo i ymgysylltu ag arbenigwr annibynnol i arwain adolygiad dysgu yn sgil marwolaeth Ms Perry[14] ac mae wedi cynnal ymarfer ymgynghori (Big Listen Ofsted[15]) i geisio safbwyntiau ar y trefniadau arolygu presennol a gwelliannau posibl. Cafodd ei lansio ym mis Mawrth, a bydd yn rhedeg tan fis Mai 2024. Fodd bynnag, dylid nodi, er bod Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin wedi argymell mewn adroddiad ymholiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar y dylai'r Adran Addysg ac Ofsted gydweithio i ddod o hyd i broses amgen i'r dyfarniad un gair cyffredinol presennol sy'n nodi natur gymhleth perfformiad ysgol yn well,[16] nad yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddisodli'r system raddio bresennol. Fodd bynnag, mae wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd o wella'r system bresennol.

### Yn yr Alban:

Mae **Arolygiaeth Gofal yr Alban (CIS) yn rheoleiddio lleoliadau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.** Mae'n defnyddio fframwaith arolygu sy'n cynnwys ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd ac arolygiadau dirybudd gyda'r nod o asesu ansawdd y gofal a ddarperir. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, staff a rheolwyr yn rhan o'r broses, sy'n arwain at roi gradd yn erbyn pob un o'r pedair Thema Ansawdd - ansawdd gofal a chymorth, ansawdd yr amgylchedd, ansawdd y staffio ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Mae chwe chategori i'r raddfa:

- Anfoddhaol - Gwendidau mawr y mae angen eu hunioni ar unwaith.
- Gwan - Gwendidau sylweddol y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith.
- Digonol - Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau o drwch blewyn ond mae angen gwneud gwelliannau.
- Da - Cryfderau mawr gyda rhai meysydd i'w gwella.
- Da iawn - Perfformiad cryf yn y rhan fwyaf o feysydd gyda mân feysydd i'w gwella.
- Rhagorol - Perfformiad neilltuol heb unrhyw feysydd i'w gwella.

Ni roddir graddau cyffredinol. Caiff dull cydweithredol ei fabwysiadu i gefnogi gwasanaethau i wneud gwelliannau, er y dylid nodi, yn wahanol i AGC, mae gan CIS gangen wella a ariennir i gyflawni hyn.

### Crynodeb

Mae ein dadansoddiad yn datgelu amrywiaeth o ddulliau arolygu a defnydd amrywiol o raddau. O dan rai fframweithiau, caiff graddau eu cymhwyso i feysydd penodol yn unig ac o dan fframweithiau eraill rhoddir gradd gyffredinol. Gall y gwahaniaethau parhaus a sylweddol mewn dulliau rhwng arolygiaethau a gweinyddiaethau adlewyrchu'r ffaith bod elfen gref o anghytuno ar waith ac nad oes unrhyw ideoleg sydd drechaf. Uwchlaw popeth, efallai y dylai'r diffyg cysondeb hwn gyfleu'r angen i AGC barhau'n ofalus i ddatblygu graddau ar gyfer gwasanaethau cymorth preswyl a chartref i'r cam nesaf a gwneud y defnydd gorau posibl o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol o rywle arall.

[14] https://www.gov.uk/government/news/dame-christine-gilbert-to-lead-independent-review-into-ofsteds-response-to-ruth-perry-tragedy

[15] Ofsted Big Listen - GOV.UK (www.gov.uk)

[16] House of Commons Education Committee: Ofsted's work with schools
House of Commons Education Committee: Ofsted's work with schools - Government response to the Committee'sreport

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth y gall y defnydd o raddau gael effaith gadarnhaol ar berfformiad gwasanaethau gofal cymdeithasol, ond nid yw'n ddarlun cynhwysfawr. Cwmpesir y mater hwn yn fanwl iawn yn yr adolygiad llenyddiaeth llawn a ddarperir fel dogfen ar wahân. Mewn blynyddoedd diweddar, gellid dweud mai Anne-Marie Towers a'i chydweithwyr ym Mhrifysgol Caint fwy na thebyg sydd wedi cyflawni'r gwaith gorau yn y maes hwn, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Canlyniadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion (ASCOT) i gymharu ansawdd bywyd preswylwyr cartrefi gofal a graddau'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr. Daeth eu hastudiaeth drawstoriadol i'r casgliad bod graddau'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn dangos ansawdd bywyd y preswylwyr, a all lywio dewis y cyhoedd a'u helpu i gymharu cartrefi gofal. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r ymchwil, a archwilir ymhellach yn yr adolygiad llenyddiaeth. Ni welsom dystiolaeth gymhellol i nodi a yw'r broses o gyhoeddi graddau yn ddefnyddiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth, eu gofalwyr neu ddarparwyr. Mae'r sgyrsiau a gynhaliwyd yng nghyd-destun y gwerthusiad hwn yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd y farn yn gymysg.

Mae ymchwil o'r Unol Daleithiau wedi archwilio'r modd y mae unigolion yn gwneud dewisiadau mewn perthynas â darpariaeth cartrefi gofal. Mae'n awgrymu, pan fydd 'defnyddwyr' wedi defnyddio gwybodaeth a gyhoeddwyd i ddewis darparwyr, eu bod yn dal wedi dewis cartrefi nyrsio sy'n agos yn ddaearyddol ac sy'n cynnig 'gwasanaethau gwesty' o ansawdd uchel. Nid oeddent yn rhoi'r un pwyslais ar ansawdd gofal clinigol. Daw'r ymchwil i'r casgliad, yn ymarferol, bod unigolion yn yr astudiaeth wedi gwneud dewisiadau'n seiliedig ar y dimensiynau ansawdd y mae'n hawdd arsylwi arnynt, eu gwerthuso, a'u cymhwyso i'w sefyllfa.

# 5 Themâu allweddol


Yn yr adran hon, gwnaethom nodi themâu allweddol sy'n deillio o'n gwerthusiad. Caiff y rhain eu llywio gan ddadansoddiad meintiol ac (yn feirniadol) gan yr ymarferion ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd â rhanddeiliaid allweddol. Lle y bo'n briodol, rydym wedi triongli'r dystiolaeth hon â thystiolaeth bresennol a rennir gyda ni gan AGC ynghylch profiadau a safbwyntiau rhanddeiliaid gwahanol. Mae'r canfyddiadau wedi'u grwpio o dan linellau ymholi allweddol a nodwyd yn y bennod Methodoleg (Adran 2, Ffigur 1). Caiff tystiolaeth o'n gwaith desg a'n gwaith maes ei hystyried o dan bob un o'r themâu.

## Graddau fel cysyniad

Mae ein gwaith maes yn awgrymu rhaniad barn amlwg o ran p'un a yw'r graddau yn syniad da ai peidio, gyda'r rhai sy'n eu cefnogi hyd yn oed yn nodi pryderon ynghylch agweddau ar sut maent yn gweithio a/neu'n cael eu cymhwyso.


Fel y dangosir yn Ffigur 6, roedd 11 o'r gwasanaethau hynny nad ydynt wedi cael eu harolygu eto o dan y fframwaith graddau ac a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y cysyniad o raddau, nid oedd 14 yn credu eu bod yn syniad da, a nododd 14 eu bod heb benderfynu neu ei bod yn rhy gynnar dweud.

*Ffigur 6*




Ymysg y darparwyr sydd eisoes wedi cael arolygiad gyda graddau, roedd mwy na hanner ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod graddau'n syniad da, gydag un rhan o dair yn anghytuno a'r 13% sy'n weddill yn nodi eu bod heb benderfynu neu eu bod yn teimlo ei bod yn rhy gynnar dweud (weler Ffigur 7). Mae hyn yn awgrymu bod y rheini sydd wedi bod drwy'r broses yn fwy tebygol o weld manteision posibl. Mae'r gyfran sydd o blaid graddau yn fwy amlwg ymysg cymorth cartref a gwasanaethau preswyl i blant.


*Ffigur 7*




Roedd rhai darparwyr yn glir iawn ynghylch eu pryderon. Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg **'**Rwy'n teimlo y bydd y drefn graddio yn ychwanegu straen a phryder ar draws y sector. ***... Mae fy ysgwyddau'n sigo a'm hegni yn lleihau pan fydda i'n meddwl bod y baich graddau hwn am gael ei gyflwyno gan AGC. ... Mae'n dangos ar adeg pan mae'r byd yn cydnabod y ffaith nad yw asesiadau un gair yn ddigonol, mae AGC am ddechrau ar y llwybr ofnadwy hwn sy'n llyncu egni'.*** Roedd ymatebydd arall yn erbyn cyflwyno graddau am ei fod yn bryderus y ***'gallent olygu y bydd fy rheolwyr yn ystyried hunanladdiad fel y pennaeth yn Lloegr'.*** Roedd ymatebydd arall o'r farn '***dydyn nhw ddim wedi gweithio yn Lloegr, felly pam y bydden nhw'n gweithio yng Nghymru?'***

Roedd rheolwyr o fewn AGC o'r farn bod graddau yn ddatblygiad cadarnhaol, sy'n farn a rennir gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a gan asiantaethau partner allweddol fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, cafwyd safbwynt mwy cymysg gan arolygwyr unigol. Ymysg y rheini a ymatebodd i'r arolwg, roedd 21 o'r farn bod graddau yn syniad da, o gymharu â 19 a oedd yn gwrthwynebu'r farn honno; roedd 15 heb benderfynu neu'n teimlo ei bod yn rhy gynnar dweud.

*Ffigur 8*




Mewn trafodaethau wedi'u hwyluso, rhannodd nifer bach o arolygwyr y farn y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio graddau o gwbl. Nododd rhai arolygwyr a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael ymateb cymysg gan ddarparwyr. Ymysg y sylwadau roedd:

***'Nid oes unrhyw system graddau yn gwella ein prosesau. Os rywbeth, mae'n golygu mai dim ond pytiau byr y byddwn yn eu rhannu â'r cyhoedd a rhywfaint o gelwydd i raddau'.***

***'Maent yn annheg yn y bôn, am ein bod yn cymharu gwasanaethau ym marn y cyhoedd, nad yw'n gymhariaeth deg.'***

***'Nid oes neb rwyf wedi siarad â nhw wedi bod yn gadarnhaol am y graddau ... Pwy sy'n cael budd ohonynt?'***

***'Mae'r system graddau yn annheg yn y bôn yn fy marn i. Rydym yn cymharu gwasanaethau sy'n gweithredu'n wahanol ac sy'n gweithredu o fewn fframweithiau cyllido gwahanol. Felly, rydym yn cymharu pethau cwbl wahanol***ac yn eu graddio yn erbyn ei gilydd. ***Mae'r graddau un gair yn annheg i'r gwasanaethau a'r cyhoedd am nad yw'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir'.***

Fel y nodwyd eisoes, rydym yn deall y gwelwyd cynnydd clir o ran ymgorffori'r system graddau. Felly, rydym wedi ceisio nodi pryderon penodol ynghylch graddau eto yn nes ymlaen yn yr adroddiad a mynd i'r afael â'r rhain yn ein hargymhellion.

## Buddiannau canfyddedig

Clywsom y canlynol am raddau gan randdeiliaid:

- Eu bod yn cyd-fynd â'r broses o symud oddi wrth safonau gofynnol cenedlaethol a chydymffurfiaeth reoliadol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 tuag at fwy o ffocws ar ganlyniadau i unigolion.
- Y gallant fod yn ddefnyddiol o ran tynnu sylw at agweddau cadarnhaol ar wasanaethau a meysydd i'w gwella.

- Y gellir eu defnyddio fel dull o wella ac arloesi.
- Eu bod yn cynnig cyfle posibl i gael deialog ystyrlon rhwng arolygwyr a darparwyr ynghylch sut y gellir sicrhau gwelliant.
- Y gellir eu defnyddio i gefnogi newid cadarnhaol mewn gwasanaethau.
- Y gallant fod yn ysgogiad i wasanaethau wneud gwelliannau parhaus yn y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt.

Dywedodd un darparwr wrthym ***'Yn fy marn i, bydd graddau'n nodi meysydd unigol yn fanwl i'n galluogi ni fel Rheolwr i ganolbwyntio arnynt pan fydd angen eu gwella'.***

Roedd eraill o'r farn:

- Bod graddau'n rhoi pwyslais clir ar ddiogelwch a llesiant unigolion.
- Os cânt eu defnyddio'n effeithiol, gallant fod yn sail i fframwaith cyson ar gyfer arolygu ledled Cymru.
- Gallant wella'r canfyddiad cyffredinol o ofal a chymorth yng Nghymru a rhoi mwy o ddewis i'r cyhoedd.
- Gallant fod yn ddull defnyddiol i reolwyr a staff ddeall cryfderau a gwendidau eu sefydliadau.

Clywsom gan ddarparwr ***'bydd unrhyw werthusiad a gradd yn ein helpu i ddeall cryfderau a gwendidau'r sefydliad, ansawdd a safon y gofal, cyfleoedd i wella ac ati.'***

Roedd rhai o'r farn y bydd cyhoeddi graddau yn cynnig dull gwerthfawr o hysbysu'r cyhoedd ynghylch ansawdd gwasanaethau a'u helpu i benderfynu ble i roi eu perthnasau.

Yn yr arolwg, gwnaethom ofyn i arolygwyr pwy oedd yn cael budd o'r broses graddau. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd, y gwasanaethau eu hunain ac AGC.

Roedd gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth a'u teuluoedd / gofalwyr safbwyntiau cymysg. Ymysg manteision a nodwyd o ran defnyddio graddau, ymatebodd un person sy'n cael cymorth cartref i'r arolwg ar-lein drwy nodi **'Bydd graddau'n tynnu sylw at arferion gorau ynghyd ag unrhyw ddiffygion'.** Roedd un ymatebydd sy'n ofalwr o'r farn y byddai graddau **'yn rhoi tawelwch meddwl i'r person sy'n derbyn gofal a'i deulu.'**

## Anfanteision posibl

Mynegodd rai rhanddeiliaid bryder mai 'erfyn di-awch' yw graddau a allai orsymleiddio'r broses arolygu ac annog dull ticio blychau lle caiff safbwyntiau eu 'gwasgu' i gategorïau a bennwyd ymlaen llaw. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn effeithio ar gywirdeb arolygiadau a'u defnyddioldeb i ddarparwyr. Gallai arwain at safbwyntiau llai ffafriol lle nad oedd gan ddarparwyr y gwaith papur neu'r gweithdrefnau gofynnol ar waith er enghraifft, heb ystyried yr effaith ar ofal a chymorth. Ystyriwyd bod hyn yn peri risg i nod craidd y graddau, sef canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd pryder bod graddau yn anochel yn adlewyrchu cipolwg ar wasanaeth ar adeg benodol ac yn tynnu sylw oddi wrth wybodaeth gyd-destunol fanylach. Gallai hyn olygu bod arolygwyr yn diystyru cynnydd gwirioneddol a wneir gan sefydliad.

Roedd un darparwr o'r farn ei bod ***'yn amhosibl rhoi gradd yn seiliedig ar un arolygiad y flwyddyn'.*** Dywedodd un arall ***'allwch chi ddim crynhoi gwaith llawer o bobl, sefydliad a chynnydd plant dros sawl blwyddyn mewn un radd'.***

Codwyd pryderon hefyd ynghylch y broses o gymhwyso graddau ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau darparu, y gallai rhai ohonynt, oherwydd eu maint, fod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â diffygion mewn meysydd fel hyfforddiant a datblygid staff a seilwaith ffisegol na'u cymheiriaid llai o faint.

Cafwyd cwestiynau ynghylch beth mae rhai yn ei ystyried fel goddrychedd cynhenid yn y defnydd o raddau, hyd yn oed os cânt eu dyfarnu yn unol â chanllawiau manwl. Mae rhai darparwyr yn poeni y bydd rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn gadarnhaol gan un arolygydd yn cael ei ystyried yn wahanol gan un arall. Roedd nifer o gyfeiriadau at y risg o anghysondeb wrth gymhwyso'r fframwaith ledled Cymru, gan roi mantais annheg i rai gwasanaethau. Roedd y thema hon yn amlwg o wybodaeth a roddwyd gan AGC ar adborth mewn sesiynau hyfforddiant roeddent wedi'u cynnal i ddarparwyr ar raddau.

Roedd arsylwadau gan ddarparwyr eraill yn cynnwys y canlynol:

***'Mae barn pobl yn amrywio a gall yr hyn sy'n rhagorol ym marn un person ymddangos yn foddhaol yn unig i berson arall'.***

***'Mae un adroddiad gwael yn diffinio ffawd gwasanaeth a gall fod cryn wahaniaeth rhwng barn un arolygydd a barn un arall'.***

**'Gall graddau gan gyrff rheoleiddio neu adolygiadau cleientiaid fod yn oddrychol weithiau ac wedi'u dylanwadu gan brofiadau neu dueddiadau unigol. Efallai nad yw'r goddrychedd hwn bob amser yn adlewyrchu ansawdd cyffredinol y gofal a ddarperir gan yr asiantaeth'.**

Disgrifiodd comisiynwyr adborth a oedd yn awgrymu lefelau uchel o oddrychedd mewn rhai meysydd, gan olygu bod un arolygydd wedi rhoi gradd gadarnhaol i un agwedd ar wasanaeth ond bod arolygydd arall wedi rhoi gradd 'Gwael' neu 'Angen Gwella' i'r un agwedd.

Dywedodd llawer o randdeiliaid wrthym eu bod yn bryderus ynghylch effaith uniongyrchol graddau ar sefydliadau darparu. Hyd yn oed yn y cam presennol lle na chaiff graddau eu cyhoeddi, mae tybiaeth y caiff graddau eu rhannu'n fewnol ar ôl arolygiad. O ganlyniad, gallai graddau gwael fod wedi cael effaith andwyol ar forâl staff, gan arwain ar y gorau at ddirywiad mewn perfformiad ac mewn enghreifftiau eraill at staff yn gadael sefydliadau. Er ein bod yn cydnabod y gallai adroddiadau arolygu gwael heb raddau gael effeithiau tebyg, roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y gallai graddau olygu bod hyn yn gwaethygu, gan gynyddu heriau presennol a wynebir gan lawer o ddarparwyr yng Nghymru wrth recriwtio a chadw staff gofal a chymorth. Yn ddealladwy, mae pryderon y gellir effeithio'n andwyol ar iechyd meddwl a llesiant rheolwyr a staff. Roedd llawer o ymatebwyr yn amlwg o'r farn y gallai'r effeithiau hyn waethygu pan gaiff graddau eu cyhoeddi, mater rydym yn ei archwilio'n fanylach yn nes ymlaen yn yr adran hon.

I'r gwrthwyneb, mae rhywfaint o anfodlonrwydd y gallai graddau gael effaith andwyol ar sefydliadau sy'n cael safbwyntiau mwy cadarnhaol. Dywedodd sawl unigolyn a gymerodd ran yn y gwerthusiad wrthym eu bod o'r farn bod sefydliadu a gafodd radd 'Rhagorol' (neu 'Da' i raddau llai) yn tueddu i gael eu gadael neu fethu gwybod sut i gynnal eu statws, gan bryderu mai dim ond gwaethygu y bydd pethau o'r pwynt hwnnw ymlaen.

Roedd un ymatebydd i'r arolwg o'r farn bod graddau'n llai defnyddiol i ofal preswyl plant nag i oedolion am mai prin iawn yw'r opsiynau lleoliadau dichonadwy fel arfer, o ystyried natur arbenigol y gofal a'r farchnad lai o faint. I'r gwrthwyneb, yn achos oedolion, fel arfer mae mwy o opsiynau ar gael i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr/teuluoedd a gall graddau eu helpu i wneud dewis mwy hyddysg. Roedd un darparwr yn tybio sut y byddai plant yn teimlo ynghylch cael eu rhoi mewn cartref sydd wedi cael gradd 'Gwael' pan nad oes ganddynt unrhyw ddewis yn y mater (ac yn hyn o beth gwnaethom hefyd nodi bod pwysau presennol yn y farchnad hefyd yn golygu, yn ymarferol, y gall dewis hefyd fod yn gyfyngedig iawn i oedolion sydd am gael gofal preswyl). Roedd eraill yn pryderu ynghylch sut y gellir esbonio graddau gwael

yn briodol i blant sy'n derbyn gofal. Clywsom hefyd gan gomisiynwyr y gallai cyhoeddi graddau achosi pwysau ychwanegol yn y farchnad. Er enghraifft, gallai cleifion wynebu oedi cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty am eu bod yn amharod i fynd i gartrefi sydd wedi cael gradd 'Gwael' neu 'Angen Gwella'. Cafwyd rhai cwestiynau ynghylch priodolrwydd y graddau presennol i wasanaethau cymorth cartref, o ystyried natur fyrhoedlog neu fyrdymor y gofal a'r cymorth a ddarperir a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â llunio barn ynghylch ymyriadau y mae angen iddynt gael cyfyngiadau amser.

Gan ymateb i'r arolwg, cwestiynodd un gofalwr werth ychwanegol posibl graddau, gan ofyn **'gan fod adroddiad, pam ar wyneb y ddaear ydych chi'n rhoi graddau?'**

## Cyfranogiad rhanddeiliaid i ddatblygu'r fframwaith graddau

Nododd AGC ei bod wedi buddsoddi'n sylweddol yn ymgysylltu ag arolygwyr, darparwyr a sefydliadau partner ers i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 gael ei rhoi ar waith a chyn cyflwyno graddau heb eu cyhoeddi, drwy ddigwyddiadau i ddarparwyr a gwybodaeth a rannwyd gan AGC i ddarparwyr. O'r sgyrsiau hyn, rydym ar ddeall bod arolygwyr, darparwyr ac asiantaethau partner wedi cael sawl cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith graddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau grŵp wedi'u hwyluso i ddarparwyr a thrafodaethau tîm â ffocws i arolygwyr.

Fodd bynnag, yn ymarferol, mae amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol iawn am y graddau yr oedd darparwyr a rhanddeiliaid eraill yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith cyn iddo gael ei gyflwyno. Mae hyn yn bwysig oherwydd tystiolaeth po fwyaf y caiff fframwaith ei 'gyd-gynhyrchu', y mwyaf tebygol y bydd o gael ei 'berchenogi' gan bartïon amrywiol a'r cryfaf y gellir disgwyl i'r ymrwymiad fod i'w weld yn llwyddo.

Pan wnaethom ofyn i'r rhanddeiliaid hyn pa mor effeithiol oedd y broses ymgysylltu a hwyluswyd gan AGC yn eu barn nhw, roedd yr ymatebion yn amlwg iawn ymysg y darparwyr hynny a oedd wedi cael arolygiad gyda graddau, o gymharu â'r rhai nad oeddent wedi cael arolygiad gyda graddau, fel y dangosir yn Ffigur 9:

*Ffigur 9*

| Darparwyr sydd wedi cael arolygiad gyda graddau | | Darparwyr nad ydynt wedi cael arolygiad gyda graddau | |
|---|---|---|---|
| 60% | Y ganran a oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn ystyrlon yn yr ymgynghoriad/ymgysylltiad cyn y cynllun peilot | 13% | Y ganran a oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn ystyrlon yn yr ymgynghoriad/ymgysylltiad cyn y cynllun peilot |
| 24% | Y ganran nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael ymgysylltiad ystyrlon | 59% | Y ganran nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael ymgysylltiad ystyrlon |
| 11% | Y ganran a oedd yn ansicr | 28% | Y ganran a oedd yn ansicr |
| 5% | Y ganran a ddywedodd nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ateb | Dd/G | Y ganran a ddywedodd nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ateb |

Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod y rheini sydd wedi cael arolygiad yn teimlo'n fwy cyfarwydd â'r broses a phriodoli hyn yn rhannol i'r trafodaethau cyn gweithredu. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod y darparwyr a leisiodd bryderon ynghylch i ba raddau yr ystyriwyd eu safbwyntiau wrth gymeradwyo'r fframwaith graddau.

Ceir enghreifftiau o'r sylwadau gan ddarparwyr unigol isod:

***Fel yr Unigolyn Cyfrifol, bûm mewn gweithdy a gynhaliwyd yn y gogledd a darllenais yr holl wybodaeth a rannwyd a'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan'.***

***'Cefais negeseuon e-bost gyda gwybodaeth am y peilot graddau.'***

***'Er yr ymgysylltwyd â mi, nid oedd yn glir ynghylch y graddau cyffredinol'.***

***'Ni chawsom ein cynnwys yn y broses o gyflwyno hyn; dywedwyd wrthym ei bod yn digwydd.'***

***'Er yr ymgynghorwyd â mi, nid oedd yn ymddangos bod cydnabyddiaeth o'r materion ynghylch sgorio gwrthrychol a'r iaith a ddefnyddir ar gyfer y graddau.***

Dywedodd sefydliadau partner wrthym eu bod yn ystyried eu bod wedi cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses o ddatblygu'r fframwaith, a dim ond 38% o'r arolygwyr a oedd yn ystyried eu bod wedi gallu 'mynd ati i lywio' proses o ddatblygu'r dull a fabwysiadwyd. Fodd bynnag, roedd 56% o'r arolygwyr a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod cyfranogiad rhanddeiliaid eraill yn y cam datblygu wedi bod yn ddigonol.


Mae ein sgyrsiau'n awgrymu y gall yr oedi cymharol hir rhwng y trafodaethau cychwynnol (2018-19) a'r broses derfynol o gyflwyno'r graddau (2023), yn sgil COVID-19, wedi effeithio ar y canfyddiadau ynghylch lefel ac effeithiolrwydd yr ymgysylltu cyn cyflwyno'r graddau. Yn syml, nid pawb a all gofio'n glir natur yr ymgysylltiad ac nid ydynt yn siŵr sut y cafodd cyfraniadau i'r trafodaethau cynnar eu bwydo i'r broses o lunio'r fframwaith terfynol.

## Strwythur y graddau

Gwnaethom wahodd cyfranogwyr i'r gwerthusiad i ddweud eu barn wrthym ynghylch y graddau presennol a ddefnyddir yn y fframwaith (h.y. Rhagorol, Da, Angen Gwella a Gwael), a'r themâu y cymhwysir y graddau yn eu herbyn (h.y. llesiant, gofal a chymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth a'r amgylchedd).


Ceir safbwyntiau cymysg mewn perthynas â'r graddau eu hunain. Roedd rhaniad cyfartal ymysg y darparwyr a ymatebodd i'r arolwg a oedd eisoes wedi cael arolygiad gyda graddau o ran y rhai a oedd o'r farn bod y graddau a'r disgrifyddion yn briodol (45%) a'r rhai nad oeddent (47%), gyda'r gweddill yn ansicr.

*Ffigur 10*



Efallai nad yw'n syndod bod mwy na hanner y gwasanaethau hynny nad oeddent wedi cael arolygiad eto yn ansicr neu'n teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth i ateb y cwestiwn hwn. Ymysg y rheini oedd â barn, roedd 74% o'r farn eu bod yn briodol, o gymharu â 26% nad oeddent o'r farn eu bod yn briodol. Ymysg yr arolygwyr, roedd mwy o wahaniaeth barn, gyda hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn nodi nad oedd y graddau a'r disgrifyddion presennol yn briodol o gymharu â 29% oedd yn meddwl eu bod yn briodol.

*Ffigur 11*




Yn ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, clywsom negeseuon ynghylch yr iaith a ddefnyddir yn y graddau a'u disgrifyddion. Yn benodol, mae ymdeimlad y gellid ystyried bod disgrifyddion ar gyfer 'Gwael' ac 'Angen Gwella' yn defnyddio iaith negyddol ac y gallai hyn gael effaith andwyol. Ystyriwyd y gallai dull sy'n fwy seiliedig ar gryfderau fod yn ddefnyddiol oherwydd y byddai'n pwysleisio sut y gellir adeiladu ar arferion presennol a threfniadau eraill er mwyn sicrhau'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Cododd cwestiynau'n aml ynghylch ehangder lefelau'r pedair gradd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r radd 'Da', sy'n ymestyn o fan ychydig gwell na 'Angen Gwella' i fan ychydig yn waeth na 'Rhagorol'. Nid ystyrir bod hyn yn ddefnyddiol o ran:

- egluro i ddarparwyr beth yw eu sefyllfa bresennol o ran perfformiad; a
- phan gaiff graddau eu cyhoeddi, wrth helpu'r cyhoedd i bwyso a mesur safon y gofal a'r cymorth a ddarperir gan wasanaethau.

Roedd y negeseuon hyn yn atgyfnerthu'r rhai a gofnodwyd gan AGC ar ôl y sesiynau hyfforddiant ar gyfer darparwyr ar raddau.

Dywedodd rhai arolygwyr a gwblhaodd yr arolwg wrthym:

***'Mae 'Da' yn rhy eang - mae'n cwmpasu darparwyr sy'n cyrraedd da o drwch blewyn a'r rhai sydd bron â chyrraedd 'Rhagorol''.***

***'Mae 'Da' yn rhy eang ac nid yw'n dynodi gwasanaeth sy'n darparu gofal da'.***

***'Mae'r radd 'Da' yn eang iawn, a gall gynnwys gwasanaethau sy'n cyrraedd da o drwch blewyn a'r rhai sydd bron â chyrraedd 'Rhagorol'.***

***Mae'r radd 'Da' yn rhy eang ac nid yw'n adlewyrchu'r mân wahaniaethau rhwng gwasanaethau sy'n bodloni'r rheoliadau ac sydd o ansawdd cymedrol a'r rheini sy'n bodloni'r rheoliadau ac sydd o ansawdd da iawn'.***

Ymysg y sylwadau gan ddarparwyr roedd y canlynol:

***'Mae'r graddau'n rhy eang ... mae 'Da' yn cwmpasu man sydd ychydig yn well na gwael ac ychydig yn waeth na 'Rhagorol''.***

***'Mae gormod o fan canol sy'n cael ei anwybyddu rhwng 'Angen Gwella' a 'Da''.***

Awgrymwyd sawl datrysiad. Er eu bod yn cydnabod y risg y gallai cyflwyno lefel graddau ychwanegol wneud fframwaith cymharol syml yn fwy cymhleth, awgrymodd nifer o randdeiliaid y gallai categori ychwanegol fod yn ddefnyddiol. Ymysg yr awgrymiadau roedd ychwanegu categori 'Digonol', 'Boddhaol' neu 'Yn cydymffurfio' rhwng 'Angen Gwella' a 'Da' a/neu lefel 'Da Iawn' rhwng 'Da' a 'Rhagorol' (er y codwyd y risg y gallai arolygwyr ddewis y canol o'r 5 gradd yn reddfol). Nododd nifer sylweddol o randdeiliaid rinweddau posibl graddau wedi'u hategu gan raddfa neu echelin weledol, lle gellid nodi ac arddangos safle gwasanaeth yn y categori a ddyfarnwyd yn gywir. Roedd rhai cyfranogwyr i'r gwerthusiad o blaid dull fel un y Safonau Hylendid Bwyd, gyda'r graddau ar gyfer darparwyr unigol yn cael eu cyfleu'n glir gan ddefnyddio sêr. Rydym yn archwilio hyn yn fanylach yn ein hargymhellion yn Adran 5.

Codwyd rhai pryderon hefyd ynghylch y radd 'Rhagorol'. Fel y nodwyd uchod, mae teimlad y gallai hyn fod yn gymhelliant gwrthnysig i ddarparwyr a all deimlo eu bod wedi 'cyrraedd y brig' o ran eu perfformiad ac nad oes unman arall iddynt fynd. Cwestiynodd rhai pobl a allai absenoldeb unrhyw arferion arloesol go iawn ar ôl cael gradd 'Rhagorol' arwain yn awtomatig at sgôr is mewn arolygiad dilynol. Gellid ystyried bod hyn yn annheg. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn ansicr ynghylch cynnwys y term 'arwain y sector' fel rhan o ddisgrifydd y radd 'Rhagorol', oherwydd yr ystyrir ei fod braidd yn aneglur ac yn anodd darparu tystiolaeth ar ei gyfer. Clywsom bryderon hefyd ynghylch anallu rhai arolygwyr i esbonio beth yw ystyr 'Rhagorol' yn ymarferol, gan arwain at ymdeimlad o ansicrwydd. I'r gwrthwyneb, roedd un darparwr a oedd wedi cael graddau 'Rhagorol' ar gyfer pob thema o'r farn y byddai hyn yn cynnig cymhelliant ar gyfer datblygiad ac arloesedd pellach.

Cafwyd safbwyntiau cymysg ynghylch absenoldeb gradd gyffredinol. Roedd rhai yn ystyried bod hyn yn briodol am ei fod yn osgoi safbwyntiau sydd wedi'u gorsymleiddio ac sy'n anghynrychioliadol ar wasanaethau cymhleth, ac roedd eraill o'r farn y byddai gradd o'r fath yn ddefnyddiol. Roedd mwyafrif clir o'r arolygwyr yn gwrthwynebu'r syniad o gael gradd gyffredinol ac roedd y darparwyr wedi'u rhannu'n fwy cyfartal, gydag ychydig o dan 50% o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg yn nodi y byddent o blaid. Awgrymodd rhai o'r rhain y byddai o fudd i wasanaethau, comisiynwyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd.

Ceir teimlad cryf ymysg rhanddeiliaid, yn ymarferol, bod y thema llesiant yn gweithredu yn lle gradd gyffredinol. Mae hyn yn gwneud i sawl un feddwl ei bod yn afresymol i'r thema hon gael gradd 'Gwael' neu 'Angen Gwella' yn awtomatig os caiff unrhyw un o'r themâu eraill radd debyg. Clywyd y farn hon yn glir mewn data o adborth gan ddarparwyr a roddwyd i ni gan AGC. Ymysg y darparwyr a ymatebodd i'r holiadur, roedd dwywaith cymaint o'r farn na ddylai'r graddau eraill effeithio ar y radd llesiant o gymharu â'r rhai oedd o'r farn y dylent. Roedd un darparwr yn glir ei farn **'y dylid asesu'r radd Llesiant ar ei rhinwedd ei hun heb gael ei dylanwadu gan y themâu eraill oherwydd gall rhywun fod â lefelau llesiant rhagorol er gwaethaf y ffaith bod mân broblem â'r gwaith papur neu'r amgylchedd yn y gwasanaeth'.** Ceir teimlad yr un mor gryf ynghylch y mater hwn ymysg comisiynwyr ac arolygwyr, gyda 76% o'r rheini a ymatebodd i'r

holiadur yn nodi na ddylai'r graddau ar gyfer y themâu eraill ddylanwadu ar y radd llesiant a dim ond 16% yn nodi y dylai.

Ymysg y sylwadau roedd:

***'Ni ddylai'r adran llesiant fod yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r adrannau eraill'.***

***'Yn fy marn i, dylai'r adran llesiant fod yn radd ar wahân heb gael ei dylanwadu gan adrannau eraill***'.

***'Dylid dileu llesiant fel thema ar wahân a'i chynnwys yn y themâu eraill. Ar hyn o bryd, os byddwn yn rhoi gradd 'Gwael' i wasanaeth ar gyfer amgylchedd ond 'Da' mewn themâu eraill - caiff llesiant cyffredinol radd 'Gwael' yn awtomatig. Mae hyn yn rhy syml ac efallai na fydd yn gymesur nac yn deg'.***

Dywedodd AGC wrthym nad yw arolygwyr yn ymarferol yn barnu themâu arolygiad yn wael oherwydd mân ddiffygion, ac mai dim ond pan fydd pryderon difrifol sy'n arwain at risg neu effaith sylweddol i bobl y rhoddir gradd 'Gwael' i themâu arolygu. Yn yr achosion hynny, byddai hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn cael ei roi er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau'n gyflym. Fodd bynnag, mae cryfder y teimlad ynghylch effaith awtomatig graddau eraill ar y thema llesiant yn golygu y dylid ystyried priodolrwydd hyn yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r pedair thema, mae'n ymddangos bod arolygwyr wedi'u rhannu'n gyfartal o ran eu barn ynghylch p'un a yw'r rhain yn briodol. Ymysg y darparwyr, mae mwyafrif clir yn cefnogi'r themâu fel ag y maent, heb ystyried y safbwynt eu bod yn rhy syml fel modd o ddisgrifio a graddio gwasanaethau hynod gymhleth. Nododd rhai darparwyr y byddent yn gwerthfawrogi disgrifiadau llawnach o'r themâu ac y byddent yn gweithio gydag arolygwyr ac eraill i'w datblygu a'u mireinio dros amser.

Fel y nodwyd uchod, codir pryderon yn aml ynghylch swyddogaeth y thema llesiant a chawsom nifer mawr o alwadau iddi gael ei hadolygu, yn benodol y dylai fod ar wahân i'r themâu eraill yn hytrach na chael ei hystyried fel gradd gyffredinol de facto.

## Rhoi'r fframwaith ar waith

Nododd yr arolygwyr eu bod wedi cael amrywiaeth o gymorth gan AGC yn ystod y cam gweithredu gan gynnwys goruchwyliaeth, hyfforddiant, cymorth gan gymheiriaid a Sicrhau Ansawdd. Dywedodd 73% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod o'r farn bod lefel y cymorth a ddarparwyd yn dda neu'n rhagorol. Dywedodd 82% eu bod o'r farn bod eu hyder yn defnyddio'r graddau wedi gwella yn ystod y cynllun peilot, o gymharu â 13% a ddywedodd nad oedd eu hyder wedi gwella. Fodd bynnag, dywedodd 60% o'r arolygwyr a gwblhaodd yr arolwg nad oedd y graddau wedi gwella eu heffeithiolrwydd, o gymharu â 35% a ddywedodd eu bod wedi gwella eu heffeithiolrwydd.

Er bod amrywiadau, mae'n ymddangos bod profiad y darparwyr hyd yma yn gadarnhaol ar y cyfan. roedd 50 o'r 72 o ymatebwyr a oedd wedi cael arolygiad gyda graddau ac a oedd wedi ymateb i'r arolwg yn honni eu bod wedi cael cymorth gan eu harolygwyr yn ystod y broses. Roedd 66% o'r farn eu bod wedi cael cyngor priodol ar y broses cyn i'r arolygiad gael ei gynnal, o gymharu â 19% nad oeddent yn teimlo bod hynny'n wir. Roedd mwyafrif clir o'r farn eu bod wedi gallu nodi ble roeddent yn teimlo eu bod wedi cyrraedd ar y matrics graddau a'u bod wedi cael cyfle i roi tystiolaeth briodol i lywio eu harolygiad. Dywedodd 84% fod y bobl a oedd yn defnyddio eu gwasanaethau a'u teuluoedd wedi cael eu cynnwys yn briodol. Ymysg y rheini a oedd yn teimlo'n wahanol, nododd un nad oedd wedi gallu dangos tystiolaeth berthnasol gymaint ag y byddai wedi hoffi. Roedd hefyd o'r farn nad ymgynghorwyd â'r staff ac na chafwyd adborth gan weithwyr proffesiynol perthnasol. Roedd 61% o'r farn bod eu graddau'n deg, ac roedd 31% o'r farn nad oeddent yn deg. Nododd un darparwr ei fod yn ***'teimlo bod marciau isel mewn un maes yn llym ac nad oeddent yn adlewyrchiad cywir.'***

**Ymysg y sylwadau mwy cyffredinol oedd:**

***‘Mae'r arolygydd sydd gennym ar gyfer ein gwasanaethau ... yn wych am esbonio'r broses a'i gwneud mor rhwydd â phosibl’.***

***‘Roedd ein harolygydd yn ymholgar, yn gwrtais ac eto'n heriol’.***

***‘Roeddwn yn bryderus ynghylch yr arolygiadau am mai'r dyma'r tro cyntaf i ni gael ein graddio. Roedd fy arolygydd yn wych ac esboniodd bopeth yn dda iawn. Roedd hefyd yn ystyried y gwasanaeth o brofiad defnyddwyr y gwasanaeth a'r rhanddeiliaid allweddol, sy'n destun clod iddi hi ac i AGC’.***

Yn yr arolwg ar gyfer gwasanaethau a oedd wedi cael arolygiadau gyda graddau, gwnaethom holi'r darparwyr am effeithiolrwydd y broses herio. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gall gwasanaethau herio'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio graddau yn hytrach na'r graddau eu hunain. Er bod y rhan fwyaf o'r darparwyr wedi nodi nad oeddent wedi defnyddio eu hawl i herio, cwestiynodd nifer bach a fyddai'n ystyrlon. Dywedodd un **‘Mae gan AGC agwedd gaeedig at apeliadau a chwynion**’ a dywedodd un arall **‘mai canfyddiad arolygydd yn erbyn realiti darparwr fydd yr achos bob amser; felly, bydd herio graddau yn cymryd amser ac yn rhwystrol i ofal llinell flaen’.** Siaradodd darparwr arall am fethu â bod yn ddigon dewr i leisio ei farn ynghylch gradd, rhag ofn iddo gael ei gosbi.

Cododd comisiynwyr bryderon sylweddol ynghylch y graddau roedd AGC wedi'u cynnwys wrth roi graddau ar waith, a oedd yn annigonol yn eu barn nhw. Gwnaethant nodi'n glir eu bod yn teimlo allan ohoni ynghylch y trefniadau ar gyfer rhoi'r graddau ar waith, ac y gallent fod dan anfantais am na chawsant wybod am y graddau a roddwyd i ddarparwyr unigol.

## Effaith arolygiadau gyda graddau hyd yma

Yr argraff glir a gawn yw, er y gellir asesu effaith uniongyrchol y broses arolygu ar ddarparwyr, ei bod yn rhy gynnar i werthuso'r effaith hirdymor ar ansawdd y gwasanaethau yn gywir.

Nododd y darparwyr a ymatebodd i'r arolwg mai'r prif nodweddion cadarnhaol hyd yma oedd codi morâl staff a sicrhau ffocws ar gyfer datblygu a gwella. Ymysg y buddiannau eraill roedd y ffaith bod graddau'n ei gwneud yn haws i bobl ddeall a'u bod yn helpu unigolion i wneud dewisiadau am ofal. Gwelliannau i ofal oedd y nodwedd gadarnhaol a ddewiswyd lleiaf aml o restr a awgrymwyd.

Nododd darparwyr amrywiaeth o effeithiau ar staff, gyda rhai yn dweud eu bod yn ddibwys, rhai yn dweud bod eu harolygiad wedi bod yn brofiad cadarnhaol ac eraill yn rhoi sylwadau llai ffafriol. Ymysg y sylwadau penodol o'r arolwg roedd:

**‘Roedd y staff yn falch o allu ymgysylltu a rhoi adborth gonest’.**

**‘Mae'r staff yn teimlo eu bod wedi cael eu cydnabod am eu holl waith caled’.**

**‘Gwnaeth yr arolygydd i'r staff deimlo dan bwysau’.**

Dywedodd un darparwr wrthym fod yr arolygiad wedi achosi pryder a straen a bod yr arolygwyr wedi methu cydnabod natur gynhenid anodd gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Dywedodd un arall fod yr arolygiad wedi gwneud i'r staff deimlo'n nerfus ac yn anghyfforddus. Yr argraff a gawsom oedd, er bod rhai o'r pryderon hyn yn bodoli cyn y graddio, bod y broses o'u cyflwyno wedi'u hamlygu.

Er bod rhai arolygwyr (gan gynnwys 38% o'r rheini a ymatebodd i'r holiadur) o'r farn y bydd y graddau'n helpu darparwyr gwasanaethau i ddatblygu a gwella, mae'n rhy gynnar i roi unrhyw dystiolaeth gadarn yng nghyd-destun Cymru. Gwnaed rhywfaint o ymchwil mewn perthynas â'r effaith ar leoliadau gofal cymdeithasol yn Lloegr - yn benodol y gwaith a wnaed gan Ann-Marie Towers a'i chydweithwyr ym

Mhrifysgol Caint - ac rydym wedi cyfeirio at hyn yn gynharach yn yr adroddiad ac yn yr adolygiad llenyddiaeth. Dywedodd nifer bach o ddarparwyr wrthym fod y graddau wedi gwella safonau gofal, ond roedd canfyddiad cryfach eu bod wedi rhoi hwb i forâl y staff (lle rhoddwyd graddau cadarnhaol) ac wedi helpu'r rheolwyr i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella. Mae'n ymddangos bod yr ail yn gymwys hyd yn oed i rai o'r gwasanaethau hynny sy'n cael graddau llai ffafriol. Dywedodd un darparwr wrthym fod y meysydd y nodwyd eu bod 'Angen Gwella' wedi atgyfnerthu ei hunanasesiad ei hun ac wedi atgyfnerthu'r achos dros newid â ffocws.

Dywedwyd wrthym y gellid gwneud mwy i rannu ymarfer effeithiol a nodwyd o fewn gwasanaethau a gafodd raddau 'Da' neu 'Rhagorol', i helpu a chefnogi'r gwasanaethau hynny a oedd wedi cael graddau llai ffafriol ac felly yr oedd angen iddynt wella mewn meysydd allweddol. Gallai hyn fod ar ffurf astudiaethau achos manwl, er enghraifft. Clywsom am weithdai sy'n cael eu rhedeg gan AGC yn cynnwys y rheini sydd wedi cael gradd 'Rhagorol' ac sydd wedi'u cynllunio i rannu ymarfer ag eraill. Roedd cymunedau ymarfer yn cynnwys darparwyr wedi'u hwyluso gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym yn awgrymu bod angen i'r mentrau hyn gael eu hyrwyddo ymhellach. Hefyd, dylid pwysleisio pwysigrwydd hwyluso trafodaethau o'r fath ar draws y sbectrwm o wasanaethau (gan gynnwys gofal preswyl a chartref i oedolion a phlant), er mwyn cefnogi pob rhan o'r sector.

Mewn sgyrsiau gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn Llywodraeth Cymru, clywsom nad yw dangosyddion perfformiad presennol a setiau data ategol yn cynnig cyfleoedd i asesu perfformiad darparwyr unigol o ran y canlyniadau i unigolion. Ynghyd â'r ffaith mai megis dechrau yw'r broses o roi graddau ar waith, mae hyn yn golygu nad oes unrhyw ddata ystyrlon i ddangos a ydynt wedi cyflawni effaith gadarnhaol ar lefelau ac ansawdd y gwasanaethau. Rydym yn credu bod cyfleoedd i AGC a Llywodraeth Cymru gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ac wrth ddatblygu'r dull o olrhain unrhyw effaith a gaiff y graddau yn y dyfodol, cynnig a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Cyhoeddi graddau

Fel y nodwyd yn gynharach, gofynnwyd i ni ehangu cwmpas ein gwerthusiad y tu hwnt i'r effaith a ragwelir o ran cyhoeddi graddau o fis Ebrill 2025. Fodd bynnag, mae'n naturiol bod cryn drafod ar hyn wedi bod yn ystod ein gwaith maes. Gwnaethom ymgysylltu â'r amrywiaeth o randdeiliaid i gael safbwyntiau ar gyhoeddi o ran egwyddor ac i archwilio canfyddiadau ynghylch buddiannau a risgiau posibl.

Mae'n ymddangos bod y safbwyntiau ar yr egwyddor o gyhoeddi wedi'u rhannu'n gyfartal. Nid oedd safbwynt amlwg ymysg rhanddeiliaid, naill ai o blaid cyhoeddi nac yn erbyn gwneud hynny, fel y dangosir yn Ffigur 12 isod sy'n crynhoi ymatebion gan ddarparwyr i'r arolwg:

*Ffigur 12*

| **Darparwyr sydd wedi cael arolygiad gyda graddau** | | **Darparwyr nad ydynt wedi cael arolygiad gyda graddau** | |
|---|---|---|---|
| 47% | Y ganran a oedd yn teimlo y byddai cyhoeddi graddau'n gwella pethau | 26% | Y ganran a oedd yn teimlo y byddai cyhoeddi graddau'n gwella pethau |
| 34% | Y ganran a oedd yn teimlo y byddai cyhoeddi graddau'n gwneud pethau'n waeth | 28% | Y ganran a oedd yn teimlo y byddai cyhoeddi graddau'n gwneud pethau'n waeth |
| 19% | Y ganran a oedd yn ansicr | 46% | Y ganran a oedd yn ansicr |

Ymysg y safbwyntiau a fynegwyd gan ddarparwyr o blaid cyhoeddi yn gyffredinol roedd:

- Mae'r cwestiwn ‘a ddylid cyhoeddi ai peidio’ yn un academaidd, oherwydd bydd pobl yn tybio nad yw'r darparwyr hynny nad ydynt wedi cyhoeddi eu graddau yn wirfoddol wedi sgorio'n dda.
- Mae angen cyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder.
- Gall fod yn gymhelliant posibl i wella a chodi safonau.
- Drwy gyhoeddi’r graddau, byddant yn fwy gwerthfawr i bobl sy'n chwilio am ofal a chymorth ac i'w teuluoedd.

Ymysg yr amrywiaeth o faterion a godwyd gan y rheini sy'n pryderu fwyaf am effeithiau andwyol posibl cyhoeddi roedd:

- Yr effaith bosibl ar lesiant rheolwyr a staff - cafwyd sawl cyfeiriad at hunanladdiad Ruth Perry.
- Mae cyhoeddi yn peri risg bosibl i ddichonoldeb parhaus y gwasanaethau, gan roi straen ychwanegol ar y farchnad gofal a'r economi ehangach mewn lleoliadau penodol.
- Mae risg na fydd fframwaith a gaiff ei ddefnyddio'n gyffredinol yn ystyried gwahaniaetha rhwng sefydliadau darparu mawr ac asiantaethau llai o ran y gallu i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu, gwelliannau amgylcheddol ac ati.
- Y risg y gallai cyhoeddi gael effaith ar allu sefydliadau i sicrhau benthyciadau ariannol, yswiriant ac ati.
- Gallai fod effaith negyddol ar y gydberthynas rhwng darparwyr a chomisiynwyr a'r posibilrwydd o golli lleoliadau, sydd unwaith eto yn effeithio ar ddichonoldeb yn y dyfodol.
- Gellid peryglu ansawdd y gofal a'r cymorth, oherwydd morâl isel ymysg staff, trosiant uwch neu adnoddau'n cael eu symud o'r llinell flaen ar gyfer gweithgarwch gwella, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.
- Y potensial y gallai'r cyhoedd gamddehongli graddau, gan arwain at ddryswch a dewisiadau anwybodus o bosibl wrth leoli neu symud perthnasau.
- Y posibilrwydd y gallai graddau uchel olygu y bydd darparwyr yn cyflwyno taliadau ychwanegol mewn ffioedd, sy'n golygu y bydd y gwasanaethau hynny yn llai hygyrch a gan greu system dwy haen o ofal o bosibl.
- Y potensial am gynnydd yn nifer y graddau a gaiff eu herio gan ddarparwyr sy'n gorfod delio â rhai o'r effeithiau a nodir uchod.

Roedd rhai o'r sylwadau penodol a gafwyd fel a ganlyn:

***‘Bydd graddau'n gwthio rhai darparwyr allan, bydd yn ormod o bwysau yn enwedig i ddarparwyr llai y mae llawer ohonynt yn gadael y farchnad o ganlyniad i faterion fel hyn’.***


***‘Rydym yn gartref bach mewn dau dŷ Fictoraidd sy'n bodoli ers 35 o flynyddoedd fel cartref a gaiff ei redeg gan deulu ac ni allwn gystadlu â moethusrwydd cartrefi pwrpasol mwy o faint. Ni fyddaf byth yn llwyddo i gael gradd ‘Rhagorol’ ar rai pethau ac mae hynny'n annheg’.***

***‘Yn gyffredinol, bydd pobl yn edrych ar y radd yn hytrach na darllen am y gwasanaeth. Bydd hyn yn sicr yn rhoi camargraff o'r gwasanaeth’.***

**‘Os bydd busnes yn cael gradd wael, bydd ar ben arno. Felly, rwy'n meddwl y bydd nifer mawr o gartrefi'n cau’.**

Ymysg arolygwyr, roedd amrywiaeth debyg o safbwyntiau mewn perthynas â chyhoeddi. Ymysg yr ymatebwyr i'r arolwg, roedd 13 o'r farn y byddai cyhoeddi'n gwella pethau, o gymharu â 18 a oedd o'r farn y byddent yn gwneud pethau'n waeth a 24 a ddywedodd eu bod yn ansicr.

*Ffigur 13*




Ymysg y sylwadau a oedd o blaid cyhoeddi roedd:

***‘Rwy'n meddwl y bydd yn gwneud i ddarparwr ganolbwyntio mwy ar wella’.***

***‘Bydd yn gorfodi gwasanaethau i werthuso eu hansawdd a sicrhau yr eir i'r afael â chamau i newid’.***

***‘Byddai cyhoeddi graddau yn fwy o fudd o lawer i bobl sy'n chwilio am wasanaeth iddyn nhw eu hunain neu i rywun arall’.***

***‘Rwy'n meddwl y bydd yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd (ac i'r holl randdeiliaid) o ran sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau hyddysg***’.

Ymysg y sylwadau gan y rhai a oedd yn llai cefnogol roedd:

***‘Mae'r graddau'n seiliedig ar gipolwg o ddiwrnod yr arolygiad. Gall pethau newid yn gyflym ac ni fydd ein graddau bob amser yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gaiff y cyhoedd. Mae gennym enghraifft yn OFSTED o'r modd y cyfrannodd arolygiad yn uniongyrchol at farwolaeth unigolyn. Nid yw cyhoeddi graddau yn werth yr effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar yr unigolion sy'n darparu gwasanaeth, na'r arolygwyr sy'n rhoi'r radd. Gallwn arolygu a gwella gwasanaethau heb beryglu llesiant pobl’.***

***‘Rwy'n meddwl y bydd yn creu mwy o heriau ar gyfer adroddiadau dros fân faterion, dim ond er mwyn codi'r radd. Gall hyn oedi'r broses gyhoeddi a golygu y bydd mwy o wasanaethau'n mynd drwy'r broses orfodi’.***


Dywedwyd wrthym hefyd y byddai angen i AGC a darparwyr reoli negeseuon a ddaw yn sgil y cyhoeddi yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn cyfleu'r cyd-destun llawn lle'r oedd graddau wedi cael eu rhoi. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn cael ffeithiau priodol a'u bod mewn sefyllfa well i wneud dewisiadau hyddysg.

Roedd pryderon a godwyd gan gomisiynwyr ynghylch cyhoeddi, lle roeddent yn ofni y gallai arwain at ddinistrio'r farchnad ynghyd â goblygiadau sylweddol i gytundebau fframwaith. Mae cwestiwn ynghylch statws priodol darparwr a gafodd radd ‘Gwael’ neu ‘Angen Gwella’ ynghylch ei gadw ar fframweithiau

comisiynu. Mae ofn hefyd y gallai llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n cael graddau anffafriol adael, gan ychwanegu pwysau enfawr ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd sy'n lleoli a chanlyniadau gwael i unigolion yn y pen draw. Mynegodd comisiynwyr bryder hefyd ynghylch y gydberthynas bosibl rhwng graddau AGC a phrosesau Uwchgyfeirio Pryderon lleol. Lle nad yw'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd, byddai risg o ddryswch ynghylch statws darparwyr unigol a rhwymedigaethau'r sefydliad sy'n comisiynu, a allai arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i unigolion a'r system yn fwy cyffredinol. Codwyd y goblygiadau penodol ar gyfer gwasanaethau ‘mewnol’ hefyd fel pryder, gyda chomisiynwyr yn gofyn sut y byddai sefyllfa lle'r oedd darpariaeth corff statudol ei hun wedi cael gradd wael yn cael ei rheoli'n ymarferol. Rydym yn nodi bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a ddrafftiwyd yn ddiweddar rhwng AGC ac awdurdodau lleol yn allweddol yma, er bod y diffyg eglurder presennol yn awgrymu y gellid adolygu ac atgyfnerthu hyn fel sy'n briodol, a fyddai'n ddefnyddiol.


Gwnaethom hefyd ofyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a'u teuluoedd/gofalwyr a oeddent o'r farn y dylid cyhoeddi graddau. Roedd y safbwyntiau'n gytbwys.

*Ffigur 14*





Roedd cydbwysedd barn debyg yn amlwg ymysg pobl a oedd yn cael gofal a chymorth a'u teuluoedd/gofalwyr o ran y graddau roeddent yn teimlo y byddai cyhoeddi yn eu helpu i ddeall pa mor dda yw gwasanaeth, a ph'un a fyddai'n dylanwadu ar y gwasanaeth a ddewisir.

*Ffigur 15*




*Ffigur 16*



## Meysydd i'w gwella a'u newid

Pan ofynnwyd pa agweddau ar y system raddio yr hoffent iddynt gael eu hystyried fel meysydd i'w newid, yr ateb a roddwyd gan arolygwyr amlaf oedd:

- Cyflwyno gradd newydd i sicrhau y gellir gwahaniaethu'n well rhwng y gwasanaethau hynny sydd ychydig yn well na ‘Angen Gwella’ a'r rhai sy'n agos at ‘Rhagorol’.
- Adolygu'r cysylltiad awtomatig rhwng llesiant a'r themâu eraill wrth gymhwyso graddau.
- Ystyried graddau ar wahân ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref oherwydd eu natur unigryw (gweler ‘anfanteision posibl’ uchod).
- Gwella canllawiau ymarfer i reoli dehongliad unigol ac annog gwell cysondeb.

Yn yr un modd roedd darparwyr am gael gradd ychwanegol o fewn y radd ‘Da’ bresennol ac yn credu bod gradd gyffredinol yn faes posibl i'w newid. Roeddent hefyd am gael gwell pwyslais ar gymorth gan AGC, yn hytrach na dim ond rhoi barn ar lefel ac ansawdd presennol y gwasanaethau. Adleisiwyd hyn drwy alw am gyngor mwy penodol i ddarparwyr gan AGC ar lwybrau gwella posibl. Gan gydnabod nad yw AGC yn cael cyllid i gefnogi gwelliant, mae'n hollbwysig cydweithio ag asiantaethau fel Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod cymorth priodol ar gael drwy ddulliau eraill.

Ceir awydd clir hefyd ymysg rhai darparwyr i sicrhau bod y cyfleuster i apelio'n ffurfiol heb raddau ar gael a, lle y bo'n briodol, y cyfle i ail-arolygu o fewn cyfnod byr (3 mis dyweder) i ailasesu ac adolygu graddau o ystyried y gwelliannau a wnaed dros y cyfnod hwnnw gan y darparwr. Mae ymdeimlad cryf bod gwasanaethau am i'w statws presennol gael ei bortreadu'n gywir a lle mae “llwyddiannau cyflym” yn bosibl i fynd i'r afael â mân faterion, nid yw darparwyr am gael eu gadael am lawer o amser gyda gradd nad yw'n adlewyrchu eu gwasanaeth.

Galwodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys nifer o gomisiynwyr, am y posibilrwydd o gyflwyno gradd gyffredinol (yr oedd sawl un yn ei hystyried fel y rôl a gyflawnwyd gan y radd llesiant o dan y trefniadau presennol).

# 6 Casgliadau

**Casgliad 1:** Yn erbyn y drefn flaenorol a oedd yn seiliedig ar safonau gofynnol cenedlaethol, y trowyd cefn arni ers nifer o flynyddoedd, a gadarnhawyd gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 1, mae cyflwyno graddau ar gyfer gwasanaethau cymorth preswyl a chartref yn gynnydd cydlynol a rhesymegol. Mae'n cyd-fynd ag ymarfer mewn sectorau cyfatebol yn y DU a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r ffocws bwriadedig ar ganlyniadau i bobl a'r dull cydweithredol a ragwelir i sicrhau gwelliant yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd ag egwyddorion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o sicrhau bod pobl yn rhan allweddol o'r gofal a chymorth a gânt; datblygu dull Cymreig cydlynus a chyson; mynd i'r afael â methiant gan ddarparwyr ac ymateb yn gyflym i bryderon ynghylch ansawdd gofal a chymorth. Cymryd camau mewn ymateb i alwadau gan rai rhanddeiliaid y dylid rhoi mwy o bwyslais ar rannu ymarfer effeithiol a byddai mwy o gymorth gweithredol i ddarparwyr i fynd i'r afael â meysydd o bryder yn helpu i hwyluso egwyddor arall yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ymateb i fodelau gofal newydd.

**Casgliad 2:** Fel cysyniad ac yn ymarferol, mae cyflwyno graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref yn cyd-fynd ag agweddau rheoliadol sydd gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gweinyddiaethau eraill. Ceir blaenoriaeth amlwg ac agos mewn perthynas â gwasanaethau gofal plant a chwarae. Heb ystyried rhai risgiau a heriau, mae'n ymddangos bod consensws bod graddau yn llunio elfen ddilys o wasanaethau cyhoeddus sy'n wirioneddol atebol.

**Casgliad 3:** Fodd bynnag, ar draws y grwpiau rhanddeiliaid y gwnaethom ymgysylltu â nhw, mae amrywiaeth eang o safbwyntiau ynghylch effeithlonrwydd a phriodolrwydd graddau. Mae'r sawl sy'n gefnogol ohonynt yn nodi eu cyfraniad posibl at gynnig dewis ystyrlon i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth ac wrth ysgogi gwelliant. Mae'r sawl sy'n llai cefnogol yn codi pryderon ynghylch yr effaith ar reolwyr a staff a bygythiadau posibl i gynaliadwyedd darparwyr unigol a'r farchnad ehangach. Hyd yn oed ymysg pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth a'u teuluoedd/gofalwyr, ni cheir cefnogaeth gyffredinol ar gyfer graddau. Ar draws darparwyr ac arolygwyr, roedd y cymorth a'r pryderon yn gyfartal. O ystyried ei bod yn ymddangos bod y polisi'n nodi'n glir o blaid defnyddio graddau a'u hymgorffori ymhellach o fewn y drefn arolygu, rydym wedi dod i'r casgliad mai atgyfnerthu'r system graddau i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder ac i wella effeithlonrwydd yw'r ffordd fwyaf synhwyrol ymlaen.

**Casgliad 4:** Mae dryswch o hyd ar ran rhanddeiliaid ynghylch diben a buddiannau bwriadedig y system graddau. Mae rhai o'r farn mai'r cyhoedd yw'r brif gynulleidfa, a all ddefnyddio graddau i lywio penderfyniadau ynghylch gofal a chymorth. Mae eraill yn eu hystyried yn bennaf fel dull i wasanaethau asesu perfformiad presennol yn feirniadol a blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'n bwysig gwneud rhagor o waith er mwyn dangos nad yw'r nodau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ond y gellir, ac y dylid ystyried eu bod yn ategu ei gilydd. Rhaid i'r cam gweithredu nesaf gynnig cyfleoedd newydd i gyfathrebu a rhoi'r diben deuol hwn ar waith.

**Casgliad 5:** Er mwyn sicrhau effaith fwyaf chyflawni potential graddau, mae angen sicrhau perchnogaeth well o'r system ymysg rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y cyhoedd, darparwyr, arolygwyr a chomisiynwyr. Mae seiliau da ar waith ar gyfer y fenter hon, yn bennaf cynnwys rhanddeiliaid i ddatblygu'r fframwaith a'r cyfleoedd sylweddol a geir ar gyfer adborth a myfyrio ar y cyd (er enghraifft drwy ddigwyddiadau rheolaidd i ddarparwyr). Ar gyfer rhanddeiliaid proffesiynol, mae angen cyfuno'r rhain ac adeiladu arnynt, gan roi cyfle gwirioneddol i bob partner lywio'r cam nesaf. Un cam cyntaf defnyddiol fyddai i AGC fabwysiadu canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad hwn. I'r cyhoedd, bydd cyfathrebu gofalus a pharhaus ynghylch diben a swyddogaeth graddau a sut y dylid eu dehongli yn allweddol.

**Casgliad 6:** Er ein bod yn credu ei bod yn rhy gynnar i ddangos effaith graddau o ran gwella darparwyr unigol a'r system gyfan, mae yr un mor amlwg nad yw mesur dangosyddion perfformiad a setiau data presennol yn addas at y diben yn hyn o beth. Mae'n hanfodol bod AGC yn cael y cyfle i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diffygion mewn systemau presennol drwy ddatblygu fframwaith perfformiad newydd.

**Casgliad 7:** Ar y cyfan, derbynnir y pedair thema sy'n cael eu graddio (llesiant, gofal a chymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth, a'r amgylchedd), y mae tair ohonynt yn gymwys i wasanaethau cymorth cartref. Ni welwn unrhyw achos clir dros eu hadolygu. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder i 'swyddogaeth' y thema llesiant, gyda llawer o randdeiliaid yn ystyried ei bod yn gweithredu yn lle gradd gyffredinol. Mae rhai o'r farn bod rhoi gradd isel yn awtomatig ar gyfer llesiant os bydd thema arall wedi cael ei sgorio ar y lefel hon yn gamarweiniol ac na ellir ei gyfiawnhau. Rydym yn credu bod angen adolygu hyn.

**Casgliad 8:** Mae llawer o randdeiliaid yn ystyried bod y system pedair gradd bresennol (Rhagorol, Da, Angen Gwella, Gwael) yn annigonol a bod angen ei newid. Ceir barn gref a chyson fod y radd 'Da' yn rhy eang oherwydd y gall fod yn berthnasol i'r gwasanaethau hynny sy'n perfformio'n well na'r lefel 'Angen Gwella', rheini sydd ychydig yn is na 'Rhagorol' a phopeth rhyngddynt. Mae pryderon ynghylch y radd 'Rhagorol' hefyd. Nid yw rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y diffiniad a ddefnyddir yn ddigon clir ac y gallai cael y radd hon olygu y byddant yn cael eu gadael a/neu at anawsterau o ran cynnal y safon rhwng un arolygiad a'r nesaf. Dywedodd darparwyr wrthym, o ganlyniad, eu bod yn ceisio peidio â chael gradd 'Rhagorol'.

**Casgliad 9:** Dylid cymryd y cyfle i adolygu'r disgrifyddion. Wrth gyfleu negeseuon clir i'r cyhoedd ar berfformiad darparwr, mae angen i ddisgrifyddion newydd feithrin dull sy'n seiliedig ar gryfderau lle y bo'n briodol.

**Casgliad 10:** Mae achos rhesymegol dros gyhoeddi'r graddau a cheir cynsail mewn trefniadau graddau eraill. Clywsom fod graddau eisoes yn cael eu rhannu'n anffurfiol â staff a bod rhai rhanddeiliaid yn nodi bod hyn yn ddefnyddiol. Er hyn, cafodd y risgiau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r graddau yn llawn o ran effaith bosibl ar les meddwl rheolwyr a staff, sefydlogrwydd timau staff, sefyllfa ariannol darparwyr a cholled bosibl i'r busnes eu cyfleu'n dda. Mae'n hanfodol ystyried yn barhaus yr enghreifftiau lle mae cyhoeddi graddau wedi arwain at ganlyniadau negyddol a thrasig weithiau (yn benodol hunanladdiad y Pennaeth Ruth Perry yn Lloegr). Dylid sicrhau amrywiaeth o fesurau llym i gyd-fynd â'r broses gyhoeddi, gan gynnwys: cymorth i wasanaethau ac arolygwyr; cyfleu'r sail dros y graddau yn glir; cyfle i ail-arolygu a diwygio graddau yn gyflym pan fo'n briodol; a hyfforddiant perthnasol i bob rhanddeiliad.

**Casgliad 11:** Mae gwerth naratif byr ynghyd â'r graddau a ddyfernir yn glir. Gellid darparu naratif o'r fath ar adeg y cyhoeddi, gan alluogi'r cyhoedd ac eraill i werthfawrogi'r cyd-destun ehangach heb orfod darllen yr adroddiad llawn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â gofal preswyl plant na chaiff adroddiadau llawn eu cyhoeddi ar eu cyfer ar hyn o bryd.

**Casgliad 12:**Ynghyd â cham i gyhoeddi graddau, mae cam gweithredu newydd a rheoliadau diwygiedig yn cynnig cyfle i gyflwyno newidiadau ehangach i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r gwerthusiad hwn. Ar gyfer y rhesymau a amlinellwyd yn gynharach, dylid cynhyrchu newidiadau ar y cyd â'r holl randdeiliaid allweddol. Ar draws y grwpiau rhanddeiliaid amrywiol, mae'n ymddangos bod awydd ar gyfer y dull cynhwysol hwn. Mae angen defnyddio ehangder y ddealltwriaeth a'r profiad ar draws y sector wrth ddatblygu trefn well, un sy'n adeiladu ar gryfderau presennol ac yn mynd i'r afael â meysydd gwannach. Rydym yn nodi meysydd posibl i'w gwella yn ein hargymhellion.

# 7 Argymhellion

Mae cam nesaf y broses o roi'r fframwaith graddau ar waith, sy'n cynnwys cyflwyno graddau wedi'u cyhoeddi, yn cynnig cyfle hanfodol ar gyfer newidiadau ehangach a fydd yn mynd i'r afael â'r amrywiaeth o faterion a ddaeth i'r amlwg hyd yma, ac sydd wedi'u crynhoi yn y casgliadau a nodir yn yr adran flaenorol. Mae'r argymhellion canlynol wedi'u cynllunio i gefnogi AGC a'i phartneriaid i hwyluso'r newidiadau hyn. Rydym yn credu bod yr argymhellion hefyd yn sail i drawsnewid i ddull sy'n fwy seiliedig ar gryfderau.

Mae argymhellion 1 i 12 ar gyfer AGC. Mae argymhellion 13 i 15 wedi'u hanelu at AGC ac asiantaethau partner, gan ddangos ein barn bod angen dull cwbl gydweithredol o gyflwyno'r gwelliannau a gynigir.

**Argymhelliad 1:** Dylai AGC lansio'r adroddiad hwn yn ffurfiol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhanddeiliaid hynny a gyfrannodd at y gwerthusiad, gan wneud ymrwymiad clir i ddatblygu'r argymhellion drwy ddull sy'n seiliedig ar gyd-gynhyrchu.

**Argymhelliad 2:** Wrth baratoi ar gyfer cam nesaf y broses o roi'r fframwaith graddau ar waith, dylai AGC gyflwyno rhaglen newid sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng gwanwyn 2 a dechrau 2025, wedi'i ategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr. Dylid mabwysiadu dull â thema, wedi'i lywio gan yr argymhellion hyn ac wedi'i gynllunio i lunio gwelliannau a gaiff eu hymgorffori mewn rheoliadau diwygiedig a'u rhoi ar waith dros gyfnod o amser a ddiffiniwyd.

**Argymhelliad 3:** Fel elfen allweddol, dylai'r rhaglen newid gynnwys amserlen ymgysylltu fanwl, gan hwyluso cyfranogiad ystyrlon gan randdeiliaid perthnasol ym mhob thema drwy dasgluoedd a gwneud y gorau o gyfleoedd i ddarparwyr gwasanaethau gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y gwasanaethau a ddarperir a phwysau ar y llinell flaen a chynnig amrywiaeth o ddulliau sy'n annog cynhwysiant, gan gynnwys sesiynau y tu allan i oriau a sesiynau ar-lein.

**Argymhelliad 4:** Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu glir wedi'i hanelu at yr holl randdeiliaid i gyd-fynd â'r newidiadau wrth iddynt gael eu cyflwyno, gan gyfleu diben y graddau a sut y dylid eu dehongli, ynghyd â chwalu mythau posibl a allai niweidio enw da ac effaith y graddau. Dylai'r dulliau cyfathrebu hyn hefyd roi gwybodaeth glir i ddarparwyr am y modd y gwneir penderfyniadau ynghylch gadau, gan leihau'r potensial am amwysedd a heriau posibl.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r rhaglen newid hefyd gynnwys adolygiad o'r pedair thema bresennol sy'n cael eu graddio (llesiant, gofal a chymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth, a'r amgylchedd). Dylai hyn ystyried yn benodol swyddogaeth y thema llesiant ac ystyried torri'r cysylltiad â'r tair thema arall o ran lefelau graddau.

**Argymhelliad 6:** Dylid cynnal adolygiad o lefelau a disgrifyddion y graddau presennol, er mwyn rhoi syniad mwy effeithiol o berfformiad darparwr yn erbyn pob thema ac, yn benodol, roi safle gwahanol i'r rheini sy'n cael gradd 'Da'.

Ymysg yr opsiynau mae:

- Cyflwyno gradd neu raddau ychwanegol, er enghraifft cynnwys 'da iawn'
- Adolygu'r disgrifydd presennol ar gyfer y radd 'Rhagorol'.
- Datblygu echelin weledol syml sy'n cynnwys lefelau'r graddau a sicrhau y gellir arddangos union safle gwasanaeth yn glir.
- Mabwysiadu system sêr fel y defnyddir yn y Safonau Hylendid Bwyd, er mwyn dangos yn glir safle presennol gwasanaeth fel y nodir yn Ffigur 17.

*Ffigur 17*




**Argymhelliad 7:** Dylid adolygu prosesau herio presennol a'u hatgyfnerthu fel sydd angen, gan sicrhau bod gan ddarparwyr gyfleoedd rhesymol i herio'r sail y penderfynwyd ar raddau a rhoi tystiolaeth ychwanegol sy'n berthnasol yn eu barn nhw, o bosibl fel sail ar gyfer ailystyried y graddau hyn.  Mae tryloywder gan AGC ar sut y gwneir penderfyniadau yn allweddol. Bydd cael y graddau'n gywir yn arbennig o bwysig ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 8:** Dylid manteisio ar gyfleoedd i wella cyfathrebu â darparwyr ynghylch yr hyn sy'n digwydd ar ôl arolygiad a'r amserlenni ar gyfer ail-arolygu, gan eu helpu i fframio eu gweithgarwch gwella a datblygu.

**Argymhelliad 9:** Dylid sefydlu gweithgorau proffesiynol gan gynnwys AGC, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr fel Fforwm Gofal Cymru a chomisiynwyr awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd er mwyn ystyried goblygiadau graddau, yn enwedig sut y gall y sector gofal gefnogi a diogelu'r farchnad a lliniaru'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyhoeddi’r graddau.

**Argymhelliad 10:** Cyn i'r graddau gael eu cyhoeddi, dylid datblygu templed ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill am y modd y lluniwyd y farn (cydbwyso cryfderau a meysydd sy'n peri pryder), ac o bosibl sut mae darparwyr wedi ymrwymo i wella. Bydd hyn yn helpu i leihau'r hyn a ganfyddir fel yr effaith ‘erfyn di-awch’, gan sicrhau y gall pobl wneud penderfyniadau hyddysg ac ystyriol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â gofal preswyl plant lle nad yw'r adroddiadau llawn wedi cael eu cyhoeddi eto.

**Argymhelliad 11:** Dylai rhanddeiliaid gael cyfarwyddiadau clir ynghylch sut y dylid rhannu graddau a gyhoeddwyd, (er enghraifft, drwy eu harddangos mewn sefydliadau lle y bo'n bosibl neu ar wefannau darparwyr). Bydd angen ystyried logisteg rhannu graddau ar gyfer darparwyr cymorth cartref, o ystyried nad yw'n debygol y bydd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u teuluoedd/gofalwyr yn ymweld â'r safleoedd a ddefnyddir gan y sefydliadau hyn.

**Argymhelliad 12:** Dylid datblygu rhaglen ‘cyngor, cymorth a myfyrio’ a'i rhoi ar waith i gyd-fynd â'r newidiadau, gan gynnwys:

- Hyfforddiant i arolygwyr ar y dull graddio ac, yn hanfodol, sut i gefnogi darparwyr drwy'r broses gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant priodol ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a chyngor ar atgyfeirio rheolwyr i gael cymorth priodol pan fo angen.
- Hyfforddiant a datblygiad mwy cyffredinol i arolygwyr ar gynnal arolygiadau sy'n seiliedig ar raddau, egluro rolau a chyfrifoldebau a chefnogi arferion cyson.
- Hyfforddiant i'r arolygwyr i'w helpu i gael gafael ar ddata a gwybodaeth berthnasol gan ddarparwyr i'w defnyddio mewn arolygiadau.
- Sesiynau ymwybyddiaeth ar y cyd ar gyfer arolygwyr a darparwyr i archwilio'r fframwaith diwygiedig a sut y gellir ei roi ar waith a'i reoli'n effeithiol, gan wneud prosesau AGC yn fwy tryloyw pan fydd angen.
- Sesiynau adolygu ar y cyd wedi'u trefnu i alluogi rhanddeiliaid i fyfyrio ar y trefniadau diwygiedig sydd ar waith a nodi newidiadau a manylion pan fydd angen. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar

amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys sut y penderfynir ar raddau, a dylent fod yn allweddol wrth sicrhau gwell cysondeb wrth ymarfer.

**Argymhelliad 13:** Dylid rhoi ystyriaeth i ddulliau posibl ar gyfer rhannu a symleiddio ymarfer effeithiol. Dylai'r rhain alluogi'r gwasanaethau hynny sydd â graddau uwch i fentora a chefnogi'r rheini a gafodd raddau llai ffafriol. Gallai'r dulliau gynnwys gwella a chyflwyno'r cymunedau ymarfer ymhellach; cyfeillio a hyfforddiant a mentora anffurfiol; a chysgodi neu gyfnewid, pan fydd capasiti a threfniadau staffio yn caniatáu.

**Argymhelliad 14:** Dylid archwilio dulliau posibl o fonitro effaith graddau ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, a'r canlyniadau i bobl. Dylai hyn gynnwys ystyried dangosyddion perfformiad a setiau data ychwanegol sy'n ategu ac yn adeiladu ar fesurau perfformiad presennol. Dylid dylunio'r fframwaith mewn ffordd sy'n lleihau beichiau ychwanegol ar ddarparwyr wrth gaffael a chasglu gwybodaeth berthnasol.

**Argymhelliad 15:** Dylai AGC a phartneriaid perthnasol gydweithio i sicrhau bod graddau yn llywio trefniadau sicrhau ansawdd o fewn fframweithiau comisiynu cenedlaethol a lleol, a phrosesau Uwchgyfeirio Pryderon.

# 8 Atodiad 1: Arolygon ar-lein

## Cynllun Peilot Graddau Arolygiaeth Gofal Cymru 2023

Mae'r cwestiynau canlynol ar gyfer gwasanaethau NAD oeddent yn rhan o'r cynllun peilot ac felly na chawsant raddau rhwng mis Mehefin 2023 a mis Rhagfyr 2023.

**Adran 1**

### Atebwch y cwestiynau canlynol mor onest ag y gallwch.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yng Nghymru eu treialu mewn cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref ledled y wlad. Er bod y gwasanaethau wedi cael gwybod eu graddau, ni chafodd unrhyw raddau eu gwneud yn gyhoeddus. O fis Ebrill 2025, caiff y graddau eu cyhoeddi a chyn y cam nesaf hwn mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi comisiynu cwmni annibynnol, Practice Solutions Ltd, i werthuso'r trefniadau a nodi gwelliannau.

Mae eich safbwyntiau ar y fframwaith yn bwysig a chewch eich gwahodd i rannu eich safbwyntiau drwy ymateb i'r arolwg hwn. **Ni ddylai gymryd mwy na 6 munud i'w gwblhau.**

Cesglir y Data hyn gan Practice Solutions Ltd ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru. Mewn cydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, ni chaiff data personol eu rhannu ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata nac unrhyw ddiben arall, na'u darparu iddynt.

**Adran 2**

### Chi a'ch gwasanaeth

1

Eich rôl Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- rheolwr tîm
- Unigolyn Cyfrifol
- Aelod o'r tîm preswyl
- Aelod o'r tîm gofal cartref

**2**

Y gwasanaeth rydych yn gweithio ynddo Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Gofal Preswyl i Oedolion gyda gofal nyrsio
- Gofal Preswyl i Oedolion heb ofal nyrsio
- Gofal Cartref i Oedolion
- Gofal Preswyl i Blant
- Gofal Cartref i Blant

**3**

Dewiswch y sector y mae eich gwasanaeth yn gweithredu ynddo Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Y Sector Annibynnol
- Y Sector Statudol
- Y Trydydd Sector
- Nid er elw

**4**

Sawl unigolyn a gaiff eu cefnogi gan eich gwasanaeth? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- O dan 10
- 10 > 20
- 21 > 50
- 51 > 75
- 76 > 100
- 100+
- Ddim yn siŵr

**5**

A gafodd unrhyw ran o'ch gwasanaeth ei harolygu yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2023 a mis Rhagfyr 2023 gan ddefnyddio'r fframwaith graddau newydd? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Do
- Naddo

**Adran 3**

## Datblygu a gweithredu'r fframwaith

**6**

A gawsoch eich cynnwys yn ystyrlon yn y cam ymgynghori / ymgysylltu cyn y peilot? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Do
- Naddo
- Rwy'n ansicr

**7**

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

**Adran 4**

## Eich safbwyntiau ar y fframwaith graddau

8

Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r fframwaith graddau? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Cyfarwydd iawn
- Eithaf cyfarwydd
- Ddim yn gyfarwydd iawn
- Ddim o gwbl
- Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb

9

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

10

A yw graddau'n syniad da, yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

11

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

12

A yw'r 4 thema sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith yn briodol yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

- Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb

13

Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi?

Rhowch eich ateb

14

A yw'r 4 gradd a'r geiriau gwerthusol a ddefnyddiwyd i'w disgrifio yn briodol yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd
- Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb

15

Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi?

Rhowch eich ateb

16

A ddylai'r graddau eraill effeithio ar y radd Llesiant? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Dylent
- Na ddylent
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd
- Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb

17

Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi?

Rhowch eich ateb

18

A oes angen gradd gyffredinol yn eich barn chi (yn ogystal â graddau ar y pedair thema?) Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Oes
- Nac oes
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

19

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

Adran 5

## Y broses arolygu

20

Ydych chi'n teimlo'n barod ar gyfer arolygiad o dan y system newydd? e.e. Ydych chi'n deall y broses? Ydych chi'n gwybod beth i'w ddisgwyl? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydw
- Nac ydw
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

Adran 6

## Gweithredu a newid

21

Atebwch y cwestiynau canlynol ar effaith bosibl graddau. Mae'n ofynnol i chi ateb.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • A fydd y system graddau'n helpu darparwyr y gwasanaethau i ddatblygu a gwella yn eich barn chi? | | | | |
| • A fydd y system graddau o fudd i unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio gofal a chymorth yn eich barn chi? | | | | |
| • A fydd y graddau'n ysgogi newid ac yn gwella canlyniadau llesiant yn eich barn chi? | | | | |
| • A fydd y graddau yn helpu i gefnogi hunanasesiad yn eich barn chi? | | | | |

Adran 7

## Herio, rhoi sylwadau a datblygu yn y dyfodol

22

A yw graddau'n syniad da, yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

23

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

24

Beth yw eich barn am gyhoeddi eich graddau yn y dyfodol? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Rwy'n meddwl y bydd yn gwella pethau
- Rwy'n meddwl y bydd yn gwneud pethau'n waeth
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

25

Pa bryderon (os o gwbl) sydd gennych am y graddau? Mae croeso i chi ychwanegu mwy o bryderon o dan 'arall'. Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Gallai fod yn rhy anodd ei ddeall
- Gallai fygwth dyfodol gwasanaeth os bydd yn cael graddau gwael
- Efallai na chaiff y fframwaith ei ddefnyddio yn yr un ffordd ledled Cymru
- Gallai'r staff ddigalonni neu adael
- Efallai na fydd pobl am weithio mewn gwasanaeth sydd wedi cael graddau gwael
- Gallai arwain at ddirywiad yn y gofal a'r cymorth a ddarperir
- Gallai arwain at wasanaethau sydd wedi cael graddau uwch yn llaesu dwylo

26

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y fframwaith graddau?

Rhowch eich ateb

# Unigolion a Theuluoedd
# Gwerthusiad Peilot o Raddau AGC 2023

Mae'r cwestiynau canlynol ar gyfer yr unigolion hynny a'u teuluoedd sy'n defnyddio gofal preswyl neu wasanaethau cymorth cartref gartref.

**Adran 1**

## Rhywfaint o wybodaeth am pam rydym yn gofyn y cwestiynau hyn i chi

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi dechrau rhoi graddau i wasanaethau i Oedolion a Phlant, gan gynnwys cartrefi preswyl i oedolion a phlant a phobl ifanc, a gwasanaethau gofal cartref, pan fyddant yn cynnal arolygiadau. Bydd y graddau hyn yn dweud i ba raddau y mae gwasanaeth yn cefnogi llesiant y bobl a gefnogir ganddo, ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, arweinyddiaeth a rheolaeth y staff a ph'un a yw'n darparu amgylchedd cadarnhaol i'r unigolion sy'n derbyn gofal. Gellir rhoi gradd 'Rhagorol', 'Da', 'Angen Gwella' neu 'Gwael' i wasanaeth.

Ar hyn o bryd, ni chaiff y graddau a gaiff gwasanaethau eu cyhoeddi, ond bydd hyn yn newid ym mis Ebrill 2025. Cyn hynny, mae AGC wedi gofyn i gwmni annibynnol edrych ar ba mor dda y mae'r graddau'n gweithio a beth y gellid ei newid yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod safbwyntiau'r bobl sy'n sy'n cael cymorth, a'u teuluoedd neu ofalwyr di-dâl, yn bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

Drwy lenwi'r arolwg hwn gallwch roi gwybod i ni beth yw eich barn ar yr hyn sy'n weithredol a'r hyn sydd angen digwydd yn y dyfodol. Mae'r arolwg yn syml a **dylai gymryd llai na 10 munud i'w gwblhau**.

Caiff y Data eu casglu gan Practice Solutions Ltd ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru mewn cydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, ni chaiff data personol eu rhannu ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata nac unrhyw ddiben arall, na'u darparu iddynt.

**Adran 2**

## Amdanoch chi

1

Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau? Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Rwy'n breswylydd mewn cartref gofal i oedolion.
- Rwy'n aelod o'r teulu neu'n gofalu'n ddi-dâl am breswylydd (fy anwylyd) mewn cartref gofal i oedolion.
- Rwy'n breswylydd mewn cartref gofal ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Rwy'n aelod o'r teulu neu'n gofalu'n ddi-dâl am breswylydd (fy anwylyd) mewn cartref gofal i blant a phobl ifanc.
- Rwy'n cael gwasanaethau cymorth cartref (gofal a chymorth yn eich cartref eich hun).
- Rwy'n aelod o'r teulu neu'n gofalu'n ddi-dâl am rywun (fy anwylyd) sy'n cael gwasanaethau cymorth cartref (gofal a chymorth yn ei gartref ei hun).

2

Ydych chi neu eich anwylyd yn cael unrhyw help i dalu am y gofal a'r cymorth a ddarperir? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydw/Ydy
- Nac ydw/nac ydy

3

Pwy sy'n helpu i dalu am eich gofal a'ch cymorth chi neu eich anwylyd? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Yr awdurdod lleol
- Y Bwrdd Iechyd Lleol
- Yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol

4

Ydych chi'n ymwybodol o'r system raddau newydd? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydw
- Nac ydw

5

A gawsoch chi eich cynnwys wrth helpu i lywio'r dull newydd? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Do
- Naddo
- Ddim yn siŵr

6

Sut oedd y profiad yn eich barn chi? Ticiwch bob un sy'n gymwys Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Roeddwn yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnaf

- Roeddwn yn deall yr hyn a ofynnwyd i mi
- Roeddwn yn teimlo y gallwn leisio fy marn
- Roeddwn yn teimlo bod fy safbwyntiau'n cyfrif
- Doeddwn i ddim yn deall bod neb yn gwrando arnaf
- Doeddwn i ddim yn deall yr hyn a ofynnwyd i mi
- Doeddwn i ddim yn teimlo'n gyfforddus i ddweud yr hyn oedd ar fy meddwl
- Doeddwn i ddim yn teimlo bod fy safbwyntiau'n cael eu hystyried
- Doeddwn i ddim yn deall y pwrpas

7

Fyddech chi wedi hoffi cael eich cynnwys? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn siŵr

**Adran 3**

## Y broses arolygu

8

Ers mis Mehefin 2023, ydych chi neu eich anwylyd wedi cael eich cynnwys mewn arolygiad o'r gwasanaeth sy'n darparu eich gofal a'ch cymorth? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydw/ydy - cefais fy nghynnwys mewn arolygiad
- Nac ydw/nac ydy - nid yw'r gwasanaeth wedi cael ei arolygu
- Nac ydw/nac ydy - CAFODD y gwasanaeth ei arolygu ond ni chefais fy nghynnwys
- Ddim yn siŵr

9

Sut oedd y profiad yn eich barn chi? Ticiwch bob un sy'n gymwys Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Roeddwn yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnaf
- Roeddwn yn deall yr hyn a ofynnwyd i mi
- Roeddwn yn teimlo y gallwn leisio fy marn
- Roeddwn yn teimlo bod fy safbwyntiau'n cyfrif
- Doeddwn i ddim yn deall bod neb yn gwrando arnaf
- Doeddwn i ddim yn deall yr hyn a ofynnwyd i mi
- Doeddwn i ddim yn teimlo'n gyfforddus i ddweud yr hyn oedd ar fy meddwl
- Doeddwn i ddim yn teimlo bod fy safbwyntiau'n cael eu hystyried
- Doeddwn i ddim yn deall y pwrpas

10

Fyddech chi wedi hoffi cael eich cynnwys? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn siŵr

**Adran 4**

## Ysgogi newid

Mae AGC am sicrhau bod y graddau yn rhoi gwerth i ddarparwyr gwasanaethau a'r bobl sy'n ceisio dod o hyd i wasanaethau gofal a chymorth neu'r bobl sy'n eu defnyddio.

Mae AGC yn credu y bydd y graddau arolygu yn arwydd clir a gwrthrychol o ansawdd y gwasanaethau ac i ba raddau y mae'r gwasanaethau yn cefnogi pobl.

11

A fydd y fframwaith graddau yn helpu gwasanaethau gofal a chymorth i wella yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Bydd
- Na fydd
- Efallai
- Ddim yn siŵr

12

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

13

A fydd o fudd i'r rheini sy'n cael gofal a chymorth a'u teuluoedd yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Bydd
- Na fydd
- Efallai
- Ddim yn siŵr

14

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

15

A ddylid cyhoeddi'r graddau yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Dylid
- Na ddylid
- Efallai
- Ddim yn siŵr

16

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

17

A fyddai cyhoeddi graddau'n ei gwneud yn haws i ddeall pa mor dda yw'r gwasanaeth yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Byddai
- Na fyddai
- Efallai
- Ddim yn siŵr

18

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

19

A fyddai cyhoeddi graddau yn dylanwadu ar b'un a fyddech chi neu eich anwylyd yn defnyddio gwasanaeth yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Byddai
- Na fyddai
- Ddim yn siŵr

20

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

21

Beth fyddai buddiannau eraill y system graddau yn eich barn chi? (Ticiwch bob un sy'n gymwys) Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Bydd yn nodi pan fydd gofal yn dda neu'n rhagorol
- Bydd yn nodi pan na fydd gofal yn ddigon da
- Bydd yn dangos beth sy'n dda a beth nad yw cystal am y gwasanaethau
- Bydd yn darparu gwybodaeth sy'n hawdd ei deall
- Ni allaf weld unrhyw beth cadarnhaol
- Ddim yn gwybod

22

Pa bryderon (os o gwbl) sydd gennych am y fframwaith graddau? Ticiwch bob un sy'n gymwys Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Gallai fod yn rhy anodd ei ddeall
- Gallai fygwth dyfodol gwasanaeth os bydd yn cael graddau gwael
- Efallai na chaiff y fframwaith ei ddefnyddio yn yr un ffordd ledled Cymru
- Gallai'r staff ddigalonni neu adael
- Efallai na fydd pobl am weithio mewn gwasanaeth sydd wedi cael graddau gwael
- Gallai arwain at ddirywiad yn y gofal a'r cymorth a ddarperir
- Gallai arwain at wasanaethau sydd wedi cael graddau uwch yn llaesu dwylo

**Adran 5**

## Sylwadau terfynol

Mae AGC yn credu y bydd y graddau yn cydnabod rhagoriaeth ac arferion da, ac yn tynnu sylw at y gwelliannau y mae angen eu gwneud."

23

Ar y cyfan, a yw graddau yn syniad da, yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

24

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?

Rhowch eich ateb

# Gwerthusiad o Gynllun Peilot Graddau AGC 2023

Mae'r cwestiynau canlynol ar gyfer y gwasanaethau hynny **sydd WEDI cael eu harolygu** fel rhan o'r cynllun peilot ac a gafodd raddau heb eu cyhoeddi rhwng mis Mehefin 2023 a mis Rhagfyr 2023.

**Adran 1**

## Atebwch y cwestiynau canlynol mor onest ag y gallwch.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yng Nghymru eu treialu mewn cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref ledled y wlad. Er bod y gwasanaethau wedi cael gwybod eu graddau, ni chafodd unrhyw raddau eu gwneud yn gyhoeddus. O fis Ebrill 2025, caiff y graddau eu cyhoeddi a chyn y cam nesaf hwn mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi comisiynu cwmni annibynnol, Practice Solutions Ltd, i werthuso'r trefniadau a nodi gwelliannau.

Mae eich safbwyntiau ar y fframwaith yn bwysig a chewch eich gwahodd i rannu eich safbwyntiau drwy ymateb i'r arolwg hwn. **Ni ddylai gymryd mwy na 15 munud i'w gwblhau.**

Caiff y Data eu casglu gan Practice Solutions Ltd ar ran ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru mewn cydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE *GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, ni chaiff data personol eu rhannu ag unrhyw drydydd parti arall at ddibenion marchnata nac unrhyw ddiben arall, na'u darparu iddynt.

**Adran 2**

## Chi a'ch gwasanaeth

1

Eich rôl Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- rheolwr tîm
- Unigolyn Cyfrifol
- Staff preswyl
- Staff gofal cartref

2

Y gwasanaeth rydych yn gweithio ynddo Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Gofal Preswyl i Oedolion gyda gofal nyrsio
- Gofal Preswyl i Oedolion heb ofal nyrsio
- Gwasanaethau Cymorth Cartref i Oedolion
- Gofal Preswyl i Blant
- Gwasanaethau Cymorth Cartref i Blant

3

Dewiswch y sector y mae eich gwasanaeth yn gweithredu ynddo Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Y Sector Annibynnol
- Y Sector Statudol
- Y Trydydd Sector
- Nid er Elw

4

Sawl unigolyn a gaiff eu cefnogi gan eich gwasanaeth? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- O dan 10
- 10 > 20
- 21 > 50
- 51 > 75
- 76 > 100
- 100+
- Ddim yn siŵr

5

A gafodd unrhyw ran o'ch gwasanaeth ei harolygu yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2023 a mis Rhagfyr 2023 gan ddefnyddio'r fframwaith graddau newydd? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Do
- Naddo

6

Rhowch y dyddiad y cynhaliwyd eich arolygiad, os gallwch. Rydym yn cydnabod y gellid adnabod eich gwasanaeth o'r wybodaeth hon, felly mae'r cwestiwn hwn yn fwriadol yn ddewisol, ac nid oes rhaid i chi ateb. Dyddiad.

Rhowch y dyddiad (dd/mm/bbbb)

**Adran 3**

## Datblygu a chyflwyno'r fframwaith

7

A gawsoch eich cynnwys yn ystyrlon yn y cam ymgynghori / ymgysylltu cyn y peilot? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Do

- Naddo
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd
- Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb

8

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

**Adran 4**

## Eich safbwyntiau ar y fframwaith graddau

9

A ydych yn deall pam a sut y caiff graddau eu cymhwyso? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydw
- Nac ydw
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd
- Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb

10

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

11

A yw graddau'n syniad da, yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

12

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

13

A yw'r 4 thema sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith yn briodol yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

14

Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi?

Rhowch eich ateb

15

A yw'r 4 gradd a'r geiriau gwerthusol a ddefnyddiwyd i'w disgrifio yn briodol yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

16

Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi?

Rhowch eich ateb

17

Ydych chi'n cytuno y dylid cael graddau ar gyfer pob thema arolygu? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydw
- Nac ydw
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

18

A ddylai'r graddau eraill effeithio ar y radd Llesiant? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Dylent
- Na ddylent
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

19

Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi?

Rhowch eich ateb

20

A oes angen gradd gyffredinol yn eich barn chi (yn ogystal â graddau ar y pedair thema?) Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Oes

- Nac oes
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

21

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

**Adran 5**

## Y broses arolygu

22

Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch profiad o gael eich arolygu (sgroliwch ar draws) Mae'n ofynnol i chi ateb.

| | √ | X | Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd | Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb |
|---|---|---|---|---|
| • Ydych chi'n teimlo bod y cam paratoi yn ddigonol? e.e. A gawsoch chi gyngor ar y broses ymlaen llaw? Oeddech chi'n gwybod beth i'w ddisgwyl? | | | | |
| • A yw'r graddau a gymhwysir yn adlewyrchu'r naratif yn yr adroddiad arolygu yn eich barn chi? | | | | |
| • Oeddech chi'n teimlo eich bod yn gallu nodi ble oeddech chi ar y matrics graddau yn eich barn chi ac a gafodd hyn ei ystyried? | | | | |
| • Oeddech chi'n teimlo eich bod wedi cael cyfle digonol i roi tystiolaeth briodol? | | | | |
| • A gafodd preswylwyr / unigolion / gofalwyr eu cynnwys yn briodol? | | | | |
| • A gafodd staff eu cynnwys yn briodol? | | | | |
| • A oedd y graddau a gawsoch yn deg yn eich barn chi? | | | | |
| • Oeddech chi'n teimlo eich bod wedi cael cymorth yn ystod y broses arolygu? | | | | |

23

Os gallwch, rhowch fwy o fanylion am eich profiad o gael eich arolygu

Rhowch eich ateb

24

A gawsoch chi gymorth gan unrhyw un o'r canlynol yn ystod y broses arolygu? Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- AGC fel sefydliad
- Yr arolygydd/arolygwyr
- Rheolwr Llinell
- Unigolyn Cofrestredig
- Cyfoedion / Cydweithwyr

25

Beth oedd effaith yr arolygiad ar y staff? Mae'n ofynnol i chi ateb.

Rhowch eich ateb

**Adran 6**

## Gweithredu a newid

26

Atebwch y cwestiynau canlynol ar effaith bosibl graddau

| | √ | X | Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd | Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb |
|---|---|---|---|---|
| • A fydd y system graddau'n helpu darparwyr y gwasanaethau i ddatblygu a gwella yn eich barn chi? | | | | |
| • A fydd y system graddau o fudd i unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio gofal a chymorth yn eich barn chi? | | | | |
| • A fydd y graddau'n ysgogi newid ac yn gwella canlyniadaullesiant yn eich barn chi? | | | | |
| • A fydd y graddau yn helpu i gefnogi hunanasesiad yn eich barn chi? | | | | |

27

Os gallwch, rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich atebion

Rhowch eich ateb

Adran 7

## Herio, rhoi sylwadau a datblygu yn y dyfodol

28

A yw graddau'n syniad da, yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

29

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

30

Beth yw eich barn am gyhoeddi eich graddau yn y dyfodol? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Rwy'n meddwl y bydd yn gwella pethau
- Rwy'n meddwl y bydd yn gwneud pethau'n waeth
- Rwy'n ansicr / Nid yw rhai meysydd yn glir i mi o hyd

31

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

32

Pa agweddau cadarnhaol (os o gwbl) sydd wedi dod o'r broses graddau hyd yma? Mae croeso i chi ychwanegu mwy o agweddau cadarnhaol o dan 'arall'. Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Mae safonau'r gofal wedi gwella
- Bydd yn cefnogi'r prosesau recriwtio a chadw staff yn y dyfodol yn fy marn i
- Mae graddau cadarnhaol wedi rhoi hwb i forâl y staff
- Mae'n gwneud pethau'n symlach i bawb eu deall
- Bydd yn helpu unigolion i wneud dewisiadau hyddysg am eu gofal a'u cymorth
- Mae wedi helpu i roi ffocws ar feysydd i'w datblygu a'u gwella

33

Pa bryderon (os o gwbl) sydd gennych am y graddau? Mae croeso i chi ychwanegu mwy o bryderon o dan 'arall'. Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Gallai fod yn rhy anodd ei ddeall

- Gallai fygwth dyfodol gwasanaeth os bydd yn cael graddau gwael
- Efallai na chaiff y fframwaith ei ddefnyddio yn yr un ffordd ledled Cymru
- Gallai'r staff ddigalonni neu adael
- Efallai na fydd pobl am weithio mewn gwasanaeth sydd wedi cael graddau gwael
- Gallai arwain at ddirywiad yn y gofal a'r cymorth a ddarperir
- Gallai arwain at wasanaethau sydd wedi cael graddau uwch yn llaesu dwylo

34

Sut y bydd y graddau yn effeithio ar eich cydberthynas â chomisiynwyr yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Yn gadarnhaol
- Yn negyddol
- Ansicr ar y cam hwn
- Ddim o gwbl

35

Pa mor effeithiol yw'r broses herio yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Effeithiol iawn
- Cymharol effeithiol
- Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
- Eithaf aneffeithiol
- Aneffeithiol iawn

36

Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

37

Beth (os o gwbl) sy'n eich pryderu chi am y dull o herio?

Rhowch eich ateb

38

Pa mor effeithiol yw'r broses o roi adborth ar ôl yr arolygiad yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb.

- Effeithiol iawn
- Cymharol effeithiol
- Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
- Eithaf aneffeithiol
- Aneffeithiol iawn

39

Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

40

Pa feysydd allweddol y byddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu cadw yn y dyfodol?

Rhowch eich ateb

41

Pa feysydd allweddol y byddech chi'n hoffi eu gweld yn newid yn y dyfodol?

Rhowch eich ateb

42

A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am eich profiad o'r fframwaith graddau?

Rhowch eich ateb

# Gwerthusiad o'r Cynllun Graddau Peilot 2023 - Arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru

Practice Solutions

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yng Nghymru eu treialu mewn cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref ledled y wlad. Er bod y gwasanaethau wedi cael gwybod eu graddau, ni chafodd unrhyw raddau eu gwneud yn gyhoeddus. O fis Ebrill 2025, caiff y graddau eu cyhoeddi a chyn y cam nesaf hwn mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi comisiynu cwmni annibynnol, Practice Solutions Ltd, i werthuso'r trefniadau a nodi gwelliannau.
Mae eich safbwyntiau ar y fframwaith yn bwysig a chewch eich gwahodd i rannu eich safbwyntiau drwy ymateb i'r arolwg hwn. **Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau.**

Atebwch y cwestiynau canlynol mor llawn ag y gallwch.
Cesglir y Data hyn gan Practice Solutions Ltd ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru. Mewn cydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, ni chaiff data personol eu rhannu ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata nac unrhyw ddiben arall, na'u darparu iddynt.

**Adran 1**

## Amdanoch Chi

1. Eich rôl yn AGC Mae'n ofynnol i chi ateb.

Rhowch eich ateb

**Adran 2**

## Datblygu a gweithredu'r fframwaith graddau

2. Atebwch y cwestiynau canlynol mewn perthynas â datblygu a chyflwyno'r fframwaith (sgroliwch ar draws) Mae'n ofynnol i chi ateb

| | √ | X | Rwy'n ansicr | Nid wyf wedi cael digon o wybodaeth i ateb |
|---|---|---|---|---|
| A wnaethoch chi lwyddo i lywio'r broses o ddatblygu'r system graddau? | | | | |
| A ymgysylltwyd yn ddigonol â rhanddeiliaid allweddol eraill yn eich barn chi? e.e. Darparwyr, staff llinell flaen, gofalwyr, unigolion sy'n cael gofal a chymorth | | | | |
| A yw cael graddau ar gyfer 4 thema yn ddefnyddiol? | | | | |
| A oes angen gradd gyffredinol yn eich barn chi (yn ogystal â graddau ar y 4 thema?) | | | | |

3.Pa gymorth a gawsoch wrth roi'r graddau ar waith yn ystod y cam peilot hwn, os o gwbl?

Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Y sesiynau goruchwylio
- Hyfforddiant
- Cymorth gan Gymheiriaid
- Sicrhau Ansawdd / Gweithgarwch meincnodi arall

4.Sut fyddech chi'n sgorio lefel y cymorth yn ystod y cam peilot hwn? e.e. 1 - gwael / 5 - rhagorol Mae'n ofynnol i chi ateb. Gradd.

1 – 2 – 3 – 4 - 5

5.Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

**Adran 3**

# Y prosesau arolygu

6. Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch profiad o gynnal arolygiadau o fewn y system newydd Mae'n ofynnol i chi ateb.

| | √ | X | Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud | Dd/G |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r fframwaith graddau yn cefnogi ymarfer cyson? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi wedi teimlo y gallwch roi adborth gwrthrychol ar y broses wrth iddi gael ei gweithredu ac os felly, a yw hyn wedi cael ei ystyried? | | | | |
| A yw eich hyder wrth gymhwyso graddau wedi gwella dros gyfnod y cynllun peilot? | | | | |
| Lle'r oedd hunanasesu wedi digwydd, a welwyd gwahaniaeth amlwg rhwng gradd y gwasanaeth ei hun a'r radd arolygu? | | | | |
| A yw'r graddau wedi gwella eich effeithiolrwydd fel arolygydd? | | | | |

### 7. Dewiswch y datganiad rydych yn cytuno fwyaf ag ef - Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Mae cyflwyno'r system graddau wedi effeithio'n gadarnhaol ar fy rôl.
- Mae cyflwyno'r system graddau wedi effeithio'n negyddol ar fy rôl.
- Nid yw fy rôl wedi newid ers cyflwyno'r system graddau.

### 8. Rhowch ragor o fanylion am yr effaith a gafodd graddau ar eich rôl fel arolygydd

Rhowch eich ateb

**Adran 4**

## Effaith

### 9. Pwy sy'n cael budd o weithredu'r graddau yn eich barn chi? (Ticiwch bob un sy'n gymwys) Mae'n ofynnol i chi ateb. Amlddewis

- Unigolion sy'n cael gofal a chymorth
- Teuluoedd y rheini sy'n cael gwasanaethau
- Y gwasanaeth sy'n cael ei arolygu
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Comisiynwyr
- Y gymuned ehangach
- Awdurdodau lleol

### 10. Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

### 11. Sut mae'r darparwyr wedi ymateb i gyflwyno'r graddau yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Yn gadarnhaol ar y cyfan
- Yn negyddol ar y cyfan

- Mae'r ymateb yn gymysg

12. Beth oedd eich profiad o rannu graddau â darparwyr? Mae'n ofynnol i chi ateb.

Rhowch eich ateb

13. A fydd y system graddau'n helpu darparwyr y gwasanaethau i ddatblygu a gwella yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Bydd
- Na fydd
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

14. Rhowch ragor o fanylion.

Rhowch eich ateb

15. A oes gennych dystiolaeth o unrhyw welliant i wasanaethau ers i'r cynllun peilot ddechrau? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Oes
- Nac oes
- Mae'n rhy gynnar i weld unrhyw newid

16. Lle rydych wedi gallu rhoi tystiolaeth o welliant, rhowch enghreifftiau byr.

Rhowch eich ateb

**Adran 5**

## Sylwadau eraill

17. A yw graddau'n syniad da, yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

18. A yw'r 4 thema sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith yn briodol yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Ddim yn siŵr

19. Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb.

Rhowch eich ateb

20. A yw'r 4 gradd a'r geiriau gwerthusol a ddefnyddiwyd i'w disgrifio yn briodol yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Ydynt
- Nac ydynt
- Ddim yn siŵr

21. Pa newidiadau y gellid eu gwneud yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb.

Rhowch eich ateb

22. A ddylai'r graddau eraill effeithio ar y radd Llesiant? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Dylent
- Na ddylent
- Ddim yn siŵr

23. A oes angen gradd gyffredinol yn eich barn chi (yn ogystal â graddau ar y pedair thema?) Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Oes
- Nac oes
- Heb benderfynu / mae'n rhy gynnar dweud

24. Pa bryderon (os o gwbl) sydd gennych am ddyfarnu graddau?

Rhowch eich ateb

25. Pa mor effeithiol yw'r broses herio yn eich barn chi? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Effeithiol iawn

- Cymharol effeithiol
- Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
- Eithaf aneffeithiol
- Aneffeithiol iawn

26. Rhowch ragor o wybodaeth

Rhowch eich ateb

27. Beth (os o gwbl) ydych chi wedi'i ddysgu ers i'r fframwaith gael ei gyflwyno?

Rhowch eich ateb

28. Beth yw eich barn am gyhoeddi graddau yn y dyfodol? Mae'n ofynnol i chi ateb. Un dewis.

- Rwy'n meddwl y bydd yn gwella pethau
- Rwy'n meddwl y bydd yn gwneud pethau'n waeth
- Rwy'n ansicr

29. Rhowch ragor o fanylion

Rhowch eich ateb

30. Pa bethau y byddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu cadw cyn i'r broses gael ei rhoi ar waith?

Rhowch eich ateb

31. Pa bethau allweddol y byddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu newid cyn i'r broses gael ei rhoi ar waith?

Rhowch eich ateb

32. Rhowch unrhyw arsylwadau pellach a allai fod yn ddefnyddiol yn eich barn chi

Rhowch eich ateb

# 9 Atodiad 2: Cyfweliadau â rhanddeiliaid

| **Cyfwelai** | **Sefydliad** | **Dyddiad y cyfweliad** |
|---|---|---|
| Mary Wimbury | Fforwm Gofal Cymru | 23 Chwefror 2024 |
| Margaret Rooney | AGC | 26 Chwefror 2024 |
| Sarah Glynn Jones | AGC | 4 Mawrth 2024 |
| Dr Ruth Hussey | AGC (Bwrdd Cynghori Cenedlaethol) | 4 Mawrth 2024 |
| Barry Miles | AGC | 18 Mawrth 2024 |
| Charlotte Powell | Gofal Cymdeithasol Cymru | 18 Mawrth 2024 |
| Joseph Wilton | Llywodraeth Cymru | 8 Ebrill 2024 |